



Social Mobility
Commission

Cyflwr y Wlad 2024:

O'r Lleol i'r Cenedlaethol,
Mapio Cyfleoedd i Bawb



Cyflwr y Wlad 2024: O'r Lleol i'r Cenedlaethol, Mapio Cyfleoedd i Bawb

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 8B(6)
o Ddeddf Cyfleoedd Bywyd 2010



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad yma ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 1 Horse Guards Road, Llundain, SW1A 2HQ.

E-bost: contact@socialmobilitycommission.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5139-4

E03184170 09/24

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm 40% cynnwys o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Ynglŷn â'r Comisiwn

Mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol yn gorff cyhoeddus ymgynghorol annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Cyfleodd Bywyd 2010 fel y'i haddaswyd gan Ddeddf Diwygio Lles a Gwaith 2016. Mae dyletswydd arno i asesu cynnydd o ran gwella symudedd cymdeithasol yn y DU a hyrwyddo symudedd cymdeithasol yn Lloegr. Mae Bwrdd y Comisiwn yn cynnwys:

Cadeirydd:

Alun Francis OBE, Pennaeth a Phrif Weithredwr Blackpool a Choleg y Fylde.

Dirprwy Gadeiryddion

Resham Kotecha, Pennaeth Polisi yn y Sefydliad Data Agored.

Rob Wilson, Cadeirydd WheelPower – British Wheelchair Sport.

Comisiynwyr

Dr Raghieb Ali, Uwch Gydymaith Ymchwil Glinigol yn Uned Epidemioleg MRC ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Ryan Henson, Prif Swyddog Gweithredol y Glymblaid ar gyfer Ffyniant Byd-eang.

Parminder Kohli, Cadeirydd Shell UK Ltd ac Is-lywydd Gweithredol Grŵp Shell Cynaliadwyedd a Carbon.

Y Farwnes Anrhydeddus Tina Stowell o Beeston MBE.

Diolchiadau

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gyda chyfraniadau gan y bobl ganlynol: Anthony Heath – Athro a Chyfarwyddwr Sefydlu'r Ganolfan Ymchwilio Cymdeithasol yng Ngholeg Nuffield, Prifysgol Rhydychen; Yaojun Li – Athro Newid Cymdeithasol (Cymdeithaseg), Prifysgol Manceinion; a Dr Yang Yu. Rydym hefyd yn ddiolchgar am gyfraniadau gan ein harbenigwyr Polisi a Thystiolaeth Ymgynghorol ac aelodau o ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol.

Sylwer

Mae'r paletau lliw ar gyfer ein siartiau a'n mapiau yn gyson â safonau'r diwydiant a'r canllawiau hygyrchedd sydd ar gael ar gov.uk. Mae lliwiau ar ben arall y sbectwm lliw yn darparu cyferbyniad clir sy'n helpu i wneud y data'n fwy hygyrch ar gyfer yr amrywiaeth ehangaf o anghenion defnyddwyr.

Cynnwys

Rhagair	8
Crynodeb Gweithredol	10
1. Cyflwyniad	16
2. Symudedd Ers Llynedd	38
3. Symudedd ar Draws y DU	92
4. Camau Nesaf	122

Rhagair

Alun Francis OBE

Cadeirydd y Comisiwn
Symudedd Cymdeithasol



Ein nod yn y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol yw gwella cyfleoedd i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd â'r cyfleoedd mwyaf cyfyngedig.

Ar yr adeg hon o newid yn y wlad, credwn ei bod yn bwysig nodi'r prif heriau ar gyfer symudedd cymdeithasol a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain. Mae angen gweithredu pendant a beiddgar mewn meysydd allweddol megis mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a chynorthwyo'r rhai mwyaf agored i niwed. Credwn nad yw dulliau traddodiadol o hyrwyddo symudedd cymdeithasol wedi gweithio bob tro, ac rydym am sicrhau bod mentrau wedi'u targedu at y bobl gywir ac yn seiliedig ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Erbyn hyn mae 4 her sy'n gorgyffwrdd yn y DU ac sy'n fframio ein problem symudedd cymdeithasol: hyder cyhoeddus isel; cenhedlaeth iau nad ydynt yn gwneud cystal â'u rhieni, yn enwedig o ran cyflogau, cynnydd a thai; diffyg sylw i wahaniaethau rhanbarthol a phobl a lleoedd 'wedi'u gadael ar ôl'; a'r angen am ymyriadau mwy llwyddiannus a chost-effeithiol. Mae pob un o'r rhain yn hanfodol ac mae angen sylw brys ar bob un.

Dros y 3 blynedd ddiwethaf, mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (SMC) wedi cyflawni ei ddyletswydd i adrodd wrth y Senedd drwy nodi a gweithredu gweledigaeth hirdymor ar gyfer monitro deilliannau symudedd cymdeithasol yn ein hadroddiad blynyddol. Yn 2022, fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi Mynegai Symudedd Cymdeithasol newydd ar gyfer mesur symudedd yn y DU yn systematig dros amser. Gwnaethom adrodd ar amrywiaeth o fesurau symudedd cymdeithasol cadarn, gan edrych ar ddeilliannau bywyd pobl o'u cymharu â deilliannau eu rhieni. Yn 2023, aethom â hyn gam ymhellach, gyda dadansoddiadau fesul nodweddion gwarchoddedig megis ethnigrwydd, rhyw ac anabledd, i ddatgelu darlun mwy cynnil. Gwnaethom hefyd bwysleisio rôl bwysig daeryddiaeth wrth lunio cyfleoedd trwy gyhoeddi ein Hofferyn Archwilio Data.

Yn adroddiad Cyflwr y Wlad eleni, rydym wedi mynd â'r dadansoddiad gam ymhellach, gan ymestyn ein dadansoddiad daeryddol o'r DU. O ganlyniad, rydym bellach yn edrych ar 203 o ardaloedd Awdurdod Lleol (ALI) Haen Uchaf, yn hytrach na 41 rhanbarth (fel llynedd). Rydym wedi gwneud hyn gan ddefnyddio 4 mesur

crynodol, neu fynegeion cyfansawdd: 'Rhagolygon Addawol', sy'n ymdrin â deilliannau canolradd (deilliannau symudedd bywyd cynnar): ac 'Amgylchiadau Plentyndod', 'Cyfleoedd Marchnad Lafur i Bobl Ifanc', ac 'Arloesi a Thwf', sy'n cynnwys ysgogwyr (neu alluogwyr) symudedd cymdeithasol. Mae hwn yn gam enfawr ymlaen o ran darparu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr - set o fesurau a thargedau a all gefnogi dulliau gweithredu seiliedig ar le o ran symudedd cymdeithasol.

Mae ein hadroddiadau blaenorol wedi dangos y gall llawer o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud am symudedd cymdeithasol yn ein gwlad fod yn syml ac yn gamarweiniol. Nid yw'n wir bod symudedd cymdeithasol yn gwaethygu ar bob cyfrif, ac nid yw ein gwlad yn cymharu'n wael ag eraill. Mewn gwirionedd, mae'r darlun yn gymhleth. Ond does dim angen argyfwng arnom i gydnabod bod modd gwella cyfleoedd; yr allwedd yw sut i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod strategaeth genedlaethol un maint i bawb ar gyfer symudedd cymdeithasol yn rhy eang i wneud unrhyw wahaniaeth go iawn. Rydym yn awyddus i weld dulliau seiliedig ar leoedd, a chydabyddiaeth o'r rhyngweithio agos rhwng economïau arloesol, gwell cyfleoedd a symudedd cymdeithasol cryf, yn hytrach na chanolbwyntio ar addysg ar wahân i'r angen i ddatrys problemau economaidd sylfaenol yn unig.

Mae ein hadroddiad Cyflwr y Wlad ar gyfer 2024 yn dod â'r posibilrwydd hwn gam yn nes. Mae'r mynegeion cyfansawdd newydd yn dangos sut mae pob ALI haen uchaf yn perfformio ar ddangosyddion symudedd cymdeithasol allweddol. Maent yn dangos yr ardaloedd sy'n allanolion, naill ai oherwydd eu bod yn perfformio'n arbennig o dda neu'n arbennig o wael. Ac maent yn ategu ein nod, sef hyrwyddo amrywiaeth ehangach o gyfleoedd i amrywiaeth ehangach o bobl mewn amrywiaeth ehangach o leoedd.

Rydym yn gobeithio y gallwn nawr weithio gydag amrediad eang o randdeiliaid, gan gynnwys llywodraeth ganolog, cyflogwyr, addysgwyr ac arweinwyr lleol i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ffynnu, beth bynnag fo'u cefndir neu'r lle cawsant eu magu.

Crynodeb Gweithredol



1: Cyflwyniad

- Mae person yn profi symudedd cymdeithasol pan fydd ganddo ddeilliannau bywyd gwahanol i'w rieni, er enghraifft, mewn incwm, galwedigaeth, tai, addysg neu gyfoeth.
-
- Ein gweledigaeth hirdymor yw nodi cyfres gyson o ystadegau symudedd cymdeithasol dros amser – ein Mynegai Symudedd Cymdeithasol. Yn unol â hyn, rydym wedi creu gwefan newydd i'w chynnal, ac rydym hefyd wedi diweddarau'r rhan fwyaf o'r ystadegau a adroddwyd yno ers adroddiad llynedd.
-
- Rydym wedi gwneud gwelliannau ychwanegol i'n hadroddiadau daearyddol drwy greu mynegai cyfansawdd o ddeilliannau canolradd (bywyd cynnar) ar lefel uchaf yr awdurdod lleol (ALI).¹ Mae hyn wedi ein galluogi i rannu'r DU yn 203 o ardaloedd daearyddol, yn hytrach na 41, fel yr oedd gennym llynedd.

¹ Mewn rhai ardaloedd yn y DU, rhennir llywodraeth leol rhwng cyngor sir (ALI haen uchaf) a chyngor dosbarth (ALI haen isaf), sy'n gyfrifol am wahanol wasanaethau. Mewn ardaloedd eraill, mae ALI un haen (neu 'unedol') yn lle hynny.

2. Symudedd Ers Llynedd

- Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael cinio ysgol am ddim (FSM) a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau i fod heb newid i raddau helaeth ers llynedd. Er enghraifft, yn 5 mlwydd oed, mae bwlch cyson o tua 20 pwynt canran yng nghyrraedd 'lefel dda o ddatblygiad'. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae wedi ehangu, fel cyfnod allweddol 4 (CA4).
- Ymhlith plant difreintiedig, mae merched yn dal i wneud yn well na bechgyn. Er enghraifft, yn 11 oed, mae 47% o ferched difreintiedig yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg, o'i gymharu â 41% o fechgyn.
- Mae plant sy'n gymwys i FSM o rai cefndiroedd ethnig yn cyflawni'n dda iawn. Er enghraifft, mae plant FSM o gefndir Tsieineaidd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer plant nad ydynt yn blant FSM yn CA2 a CA4 (11 ac 16 oed). Yn 11 oed, mae 71% o blant sy'n gymwys i FSM o gefndir Tsieineaidd yn cyrraedd y safonau gofynnol.
- Mae holl ardaloedd Llundain yn parhau i wneud yn dda o ran cyrhaeddiad addysgol i ddisgyblion sy'n gymwys i FSM yn 5, 11 ac 16 oed.
- Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol yn y DU (ar ôl cyfrif am gostau tai) wedi codi ers 2012 ac mae tua 30%. Mae'n dal yn is na'r lefelau a gyrraeddwyd yn y 1990au (pan oedd y ganran yn agosach at ganol y 30au), ond mae'n llawer uwch na lefelau hanesyddol o'r 1960au a'r 70au.
- Mae argaeledd addysg o ansawdd uchel yn y Deyrnas Unedig yn parhau'n dda. Mae'r DU wedi perfformio ar gyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) neu'n uwch yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer mathemateg, darllen a gwyddoniaeth, ond mae sgoriau 2022 yn dangos gostyngiadau ledled y byd.

- Rydym yn gweld bod lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc bellach yr isaf y maent wedi bod ers 2014, sef 11% yn 2022. Mae hyn yn golygu bod llawer llai o bobl ifanc yn dioddef effeithiau negyddol diweithdra.
-

- Fodd bynnag, i'r bobl ifanc hynny sy'n ddi-waith, gallai dod o hyd i swydd fod yn anoddach, gan fod cyfraddau swyddi gwag wedi gostwng o 0.9 i 0.7 swydd wag ar gyfer pob person di-waith rhwng 2022 a 2023.
-

- Mae'n ymddangos bod cau'r bwlch cefndir economaidd-gymdeithasol (SEB) wrth gofrestru prifysgolion rhwng 2014 a 2022. Yn 2014, roedd pobl ifanc o gefndiroedd proffesiynol uwch 3.9 gwaith yn fwy tebygol o fod yn astudio am radd na'r rhai o gefndiroedd dosbarth gweithiol is. Yn 2022 roeddent ond 2.2 gwaith yn fwy tebygol. Mae data gan yr Adran Addysg, sy'n mynd yn ôl i 2006, yn awgrymu bod hon yn duedd hyd yn oed yn y tymor hwy.
-

- Gall pobl ifanc â chymwysterau isel fod wedi cau'r bwlch enillion gyda'u cyfoedion mwy cymwys. Er enghraifft, bu cynnydd o 16% mewn enillion real yr awr i bobl â chymwysterau lefel is rhwng 2014 a 2016, a 2020 i 2022. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd ar gyfer pob grŵp sydd â chymwysterau lefel uwch.
-

- Mae ymgysylltu dinesig - cymryd rhan mewn prosesau democrataidd, megis llofnodi deiseb neu fynychu rali gyhoeddus - wedi gostwng o 40% i 34%.
-

- Mae canran y safleoedd sydd ag argaeledd rhyngrwyd o ran gigabitau wedi cynyddu'n sydyn ledled y DU ers 2020, gan feithrin gwell seilwaith technegol ar gyfer arloesi a thwf.
-

- Nid ydym wedi cynnwys amrediad llawn o ddadansoddiadau gan nodweddion gwarchoddedig yn y ddogfen hon. Yn hytrach, caiff y dadansoddiadau hyn eu cyhoeddi'n llawn ar ein gwefan, social-mobility.data.gov.uk.

3. Symudedd ar Draws y DU

- Rydym wedi datblygu mynegeion cyfansawdd newydd o ddeilliannau canolradd (deilliannau symudedd yn gynharach mewn bywyd), ac ysgogwyr (galluogwyr symudedd), ar lefel awdurdod lleol (ALI).
-
- Bellach mae gennym un mynegai ar gyfer deilliannau canolradd ar lefel ALI haen uchaf. Mae hyn yn rhoi 203 o ranbarthau daearyddol i ni ar draws y DU, yn hytrach na'r 41 rhanbarth a gawsom llynedd Mae'r mynegai hwn, o'r enw Rhagolygon Addawol, yn cwmpasu'r cymwysterau enillion fesul awr uchaf, a galwedigaethau proffesiynol a dosbarth gweithiol pobl ifanc.
-
- Yn gyffredin â gwaith arall ar y pwnc, rydym wedi canfod bod gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol lefelau symudedd tebyg, gydag ychydig ar y pen uchaf a'r pen isaf. Mae'r ardaloedd mwyaf ffafriol yn tueddu i fod naill ai yn Llundain neu yn y Siroedd Cartref cyfagos.
-
- Yn yr un modd, rydym wedi datblygu 3 mynegai cyfansawdd newydd o ysgogwyr (yr amgylchiadau cefndir sy'n helpu neu'n rhwystro symudedd) ar lefel ALI haen uchaf, gan roi'r un 203 o ranbarthau daearyddol.
-
- Gelwir y mynegai cyntaf yn seiliedig ar yrwyr yn Amgylchiadau Plentyndod. Mae hyn yn cynnwys tlodi plentyndod, addysg rhieni, galwedigaeth dosbarth gweithiol rhieni a galwedigaeth broffesiynol rhieni. Mae'r cyflyrau mwyaf ffafriol yn ystod plentyndod i'w gweld mewn ardaloedd cefnog, Llundain Fwyaf a'r Siroedd Cartref yn bennaf, ond hefyd rhannau o'r Gogledd a'r Alban.
-
- Yr ail fynegai sy'n seiliedig ar ysgogwyr yw Cyfleoedd y Farchnad Lafur i bobl ifanc. Mae hwn yn cynnwys diweithdra ieuencid, cyflogaeth broffesiynol ieuencid, a chyflogaeth dosbarth gweithiol ieuencid. Mae'r canlyniadau'n debyg, er bod yr ALLau sydd â'r cyfleoedd llai ffafriol i bobl ifanc yn tueddu i fod yn y Gogledd-ddwyrain a'r Gogledd-orllewin, yn ogystal ag ardaloedd diwydiannol a phorthladdoedd hŷn.
-
- Rydym wedi cadw ein mynegai cyfansawdd sy'n edrych ar ymchwil a datblygu (R&D), ond wedi ei wella fel ei fod hefyd yn rhoi 203 o ranbarthau i ni. Mae'r mynegai hwn bellach yn cael ei alw'n Arloesi a Thyfu. Mae'r ardaloedd mwyaf ffafriol yn cael eu clystyru o amgylch Llundain, yn bennaf yn Ne Lloegr, ond mae ambell ardal arall yn sgorio'n dda ar y mynegai hwn.



Eleni, rydym wedi datblygu mynegeion cyfansawdd newydd o ddeillannau canolradd ac ysgogwyr ar lefel awdurdod lleol.

1: Cyflwyniad



Wedi'i amlygu

- Mae person yn profi symudedd cymdeithasol pan fydd ganddo ddeilliannau bywyd gwahanol i'w rieni, er enghraifft, mewn incwm, galwedigaeth, tai, addysg neu gyfoeth.
-
- Ein gweledigaeth hirdymor yw nodi cyfres gyson o ystadegau symudedd cymdeithasol dros amser – ein Mynegai Symudedd Cymdeithasol. Yn unol â hyn, rydym wedi creu gwefan newydd i'w chynnal, ac rydym hefyd wedi diweddarau'r rhan fwyaf o'r ystadegau a adroddwyd yno ers adroddiad llynedd.
-
- Rydym wedi gwneud gwelliannau ychwanegol i'n hadroddiadau daearyddol drwy greu mynegai cyfansawdd o ddeilliannau canolradd (bywyd cynnar) ar lefel uchaf yr awdurdod lleol (ALI).² Mae hyn wedi ein galluogi i rannu'r DU yn 203 o ardaloedd daearyddol, yn hytrach na 41, fel yr oedd gennym llynedd.

² Mewn rhai ardaloedd yn y DU, rhennir llywodraeth leol rhwng cyngor sir (ALI haen uchaf) a chyngor dosbarth (ALI haen is), sy'n gyfrifol am wahanol wasanaethau. Mewn ardaloedd eraill, mae ALI un haen (neu 'unedol') yn lle hynny

Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

Mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (SMC) yn bodoli i fonitro symudedd cymdeithasol ledled y DU a gwneud argymhellion ar symudedd cymdeithasol yn Lloegr. Ein nod yw deall faint o bobl sy'n gymdeithasol symudol, ym mha rannau o'r wlad, ac a yw cefndir unigolyn yn cyfyngu ar gyfle. Mae symudedd cymdeithasol yn bwysig oherwydd ei fod yn golygu nad yw amgylchiadau geni yn cyfyngu ar yr hyn y gallwch ei gyflawni: ni waeth beth yw eich man cychwyn, gallwch fynd ymlaen i fyw bywyd boddhaus.

Gwella ein hadroddiadau

Mae olrhain a siartio symudedd yn gymhleth, felly rydym wedi gweithio'n galed ar wella sut rydym yn dangos ein canfyddiadau. Rydym hefyd wedi chwilio am ffyrdd arloesol o gryfhau ein monitro trwy wella ein Mynegai Symudedd Cymdeithasol (SMI).

Yn ein hadroddiad blynyddol yn 2022, gwnaethom gyflwyno ein Mynegai cynhwysfawr newydd, gan adrodd am y tro cyntaf ar amrediad llawn o ddeilliannau symudedd ac ysgogwyr, a gosod y sylfaen ar gyfer adrodd cyson dros amser.

Yn ein hadroddiad blynyddol yn 2023, cyhoeddwyd:

- deilliannau symudedd newydd, yn ogystal â swyddi ac enillion, sy'n edrych ar addysg, perchnogaeth cartrefi a chyfoeth pobl, o'i gymharu â rhieni'
- amrediad gwell o ddeilliannau canolradd, gan ganolbwyntio ar addysg a chyflogaeth pobl iau
- ysgogwyr symudedd cymdeithasol wedi'u diweddarau, gan roi syniad i ni o'r amgylchiadau cefndir a allai helpu neu rwystro symudedd cymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys y

rhai sy'n ymwneud â chyfalaf a chysylltiadau cymdeithasol, yn ogystal ag arloesi a thwf.

- dadansoddiad o ddeilliannau ac ysgogwyr yn ôl daearyddiaeth a chan nodweddion gwarchoddedig, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn deall yn well ble roedd symudedd cymdeithasol yn gweithio ac nad oedd yn gweithio, ac ar gyfer pwy³

Yn olaf, er mwyn sicrhau bod ein canfyddiadau yn fwy hygyrch, fe wnaethom ddatblygu Offeryn Archwiliwr Data rhyngweithiol i helpu i nodi gwahaniaethau rhanbarthol mewn deilliannau symudedd.

Eleni, rydym wedi mynd â phethau un cam ymhellach. Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i'n hadroddiadau trwy fireinio ein mynegeion cyfansawdd (mesurau crynodol).⁴ Rydym hefyd wedi gwella ein dadansoddiadau daearyddol, gan ddrilio i lawr i lefel yr ALIau haen uchaf neu un haen. Mae hyn yn rhoi llawer mwy o ganfyddiad i ni o sut mae'r deilliannau'n amrywio'n lleol yn hytrach nag yn rhanbarthol.

Ein nod o hyd yw darparu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr a chywir o dueddiadau symudedd cymdeithasol ledled y DU, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial, a llwyddo beth bynnag fo'u hamgylchiadau geni.

Trosolwg o'r Mynegai

Yn 2022, lanswyd ein SMI newydd i fesur symudedd yn glir ac yn systematig ar draws oes unigolyn. Mae ein Mynegai yn cynnwys dros 40 o ddangosyddion sy'n cwmpasu'r blynyddoedd cynnar hyd at fyd oedolion hwyr.

Rydym yn cynnwys deilliannau symudedd cymdeithasol, edrych ar swyddi ac enillion pobl ar wahanol gyfnodau bywyd, o'i gymharu â'u rhieni. Rydym hefyd yn adrodd ar rai ysgogwyr neu gyflyrau cefndir a allai helpu neu rwystro symudedd cymdeithasol yn y dyfodol.

3 Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a hil (gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, a tharddiad ethnig neu genedlaethol). Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn rhywun sydd ag unrhyw un o'r nodweddion hyn.

4 Mae mynegai cyfansawdd yn dechneg ddadansodol sy'n eich galluogi i grwpio sawl mesur gyda'i gilydd i greu sgôr gyfansawdd.

Pobl yn eu 40au a'u 50au

Deilliannau symudedd cymdeithasol a arsylwyd



Deilliannau symudedd

Deilliannau symudedd cymdeithasol diweddarach bywyd, gan gymharu man cychwyn a gorffen pobl Tueddiadau tymor hir mewn:

Symudedd Galwedigaeth, Incwm, Addysg, Tai a Chyfoeth

Symudedd cymdeithasol heddiw

Pobl yn eu 20au a'u 30au

Deilliannau bywyd cynnar sy'n rhoi cipolwg ar ragolygon symudedd cymdeithasol



Deilliannau canolradd

Blynyddol

Addysg orfodol (5 i 16) e.e. cyrhaeddiad yn 16 oed(5 i 16) e.e. cyrhaeddiad yn 16

Llwybrau i'r gwaith (16 i 29) e.e. cyrchfannau ar ôl addysg orfodol

Gweithio mewn oedolaeth gynnar (25 i 29) e.e. galwedigaeth

Dilyniant gyrfa e.g. bwlch cyflog dosbarth



Deilliannau canolradd

Bob ychydig flynyddoedd

Gan gyfuno data ar draws y blynyddoedd gallwn ni ddansoddi'r deilliannau canolradd fesul:

- Daearyddiaeth
- Rhywedd neu ryw
- Ethnigrwydd
- Anabled
- Nodweddion gwarchoddedig eraill

Plant a Phobl Ifanc

Amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd a allai helpu neu rwystro symudedd cymdeithasol yn y dyfodol pell



Ysgogwyr symudedd cymdeithasol

Cyflyrau plentyndod e.e. tlodi plant

Cyfleoedd addysgol ac ansawdde.e. ansawdd yr ysgol

Cyfleoedd gwaith ac ansawdd e.e. cyfraddau swyddi gwag

Cyfalaf cymdeithasol e.e. ymgysylltiad dinesig

Symudedd cymdeithasol yn y dyfodol (mewn 30 mlynedd)



Beth yw symudedd cymdeithasol?

Gall fod llawer o ystyron i'r term 'symudedd cymdeithasol'. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn ei ddefnyddio i gyfeirio at symudedd cymdeithasol rhwng cenedlaethau. Mae hyn yn golygu bod person yn profi symudedd cymdeithasol pan fydd ganddo ddeilliannau bywyd gwahanol i'w rhieni.

Gallai hyn olygu lefel incwm wahanol, dosbarth galwedigaethol gwahanol neu wahaniaethau eraill, megis tai neu addysg. Gall symudedd hefyd fod ar i fyny neu i lawr Ond yr hyn sydd gan

yr holl ddulliau hyn yn gyffredin yw pryder gyda'r siawns i bobl a anwyd ac a fagwyd mewn un math o sefyllfa symud i fyny neu i lawr yr ysgol gymdeithasol i safle uwch neu is na, neu aros yn yr un sefyllfa â'u rhieni.

Er enghraifft, os oes gennych alwedigaeth broffesiynol a bod gan eich rhieni alwedigaeth dosbarth gweithiol, rydych wedi profi symudedd galwedigaethol i fyny. Neu os oes gennych incwm uchel a bod gan eich rhieni incwm is ar yr un oedran, rydych wedi profi symudedd incwm i fyny.

Mae gan y fframwaith newydd 2 fath o fesur: deilliannau (symudedd a chanolradd) ac ysgogwyr.

Deilliannau symudedd

Mae deilliannau symudedd yn cymharu eich man cychwyn mewn bywyd, yn seiliedig ar sefyllfa eich rhieni, â'ch sefyllfa eich hun yn y pen draw fel oedolyn. Er enghraifft, gallem gymharu incwm rhieni unigolyn ag incwm y person yntau tua 50 oed. Rydym yn edrych ar feddiannaeth, incwm, addysg, tai a chyfoeth lle mae'r data'n caniatáu.

Mae dadansoddiad o'r rhan fwyaf o ddeilliannau symudedd yn dibynnu ar ddata o astudiaethau panel neu garfan geni, nad ydynt bob amser yn cael eu diweddarau'n flynyddol. Felly, rydym wedi adrodd yr un ffigurau â'r llynedd ar gyfer y deilliannau symudedd a'u cynnwys yn ein Hofferfyn Archwiliwr Data ar-lein sy'n ategu'r adroddiad hwn.

Yn ein hadroddiad, mae 'symudedd cymdeithasol' yn cyfeirio at symudedd cymdeithasol rhwng cenedlaethau. Mae person yn dod yn gymdeithasol symudol os yw'n profi deilliant bywyd gwahanol, megis incwm neu ddosbarth galwedigaethol, o'i gymharu â'i rieni.

Deilliannau canolradd

Ar gyfer deilliannau canolradd, rydym yn edrych ar gynnydd pobl o sefyllfa eu rhieni i'w sefyllfa eu hunain ar bwynt cynharach mewn bywyd, megis cyflogaeth yn eu 20au neu gyrhaeddiad addysgol yn 16 oed. Rydym yn olrhain hyn oherwydd gall deilliannau cynnar unigolyn fod yn ddangosydd da iawn o sut y bydd eu bywyd diweddarach yn diweddu. Mae hefyd yn golygu bod gennym gipolwg cynnar ar symudedd heb orfod aros i asesu deilliannau yn llawer hwyrach mewn bywyd.

Rydym yn torri mesurau deilliannau symudedd a chanolradd i lawr fesul cefndir economaidd-gymdeithasol pobl (SEB), fel y gallwn weld sut y gallai gwahanol fannau cychwyn effeithio ar gynnydd i bwyntiau diweddarach.⁵

Ysgogwyr

Yn wahanol i'r deilliannau, mae ysgogwyr yn edrych ymlaen. Maent yn cynrychioli'r amgylchiadau cefndir cenedlaethol neu leol sy'n gwneud symudedd cymdeithasol yn haws (neu'n fwy heriol). Rydym yn cynnwys dangosyddion sy'n effeithio ar gyfraddau symud cyfanredol, nid unigolion. Er enghraifft, ysgogwyr sydd ar gael mewn ysgolion da neu gyfleoedd gwaith, oherwydd eu bod yn helpu grwpiau o bobl na fyddent fel arall yn cael cyfleoedd i fod yn gymdeithasol symudol. Mae'r cwestiwn beth yw gyrrwr neu nad yw'n yrrwr hefyd yn wahanol i'r cwestiwn o beth allai helpu unigolyn i gyflawni symudedd i fyny (fel cael gradd dda, er enghraifft).

Gyda'r ysgogwyr, rydym yn edrych ar yr amgylchiadau hyn ledled y DU ac nid gan SEB. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig o'r deilliannau symudedd a chanolradd.

⁵ Yn ein hadroddiad, mae SEB person yn golygu sefyllfa economaidd-gymdeithasol eu rhieni. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ddosbarth galwedigaethol, incwm neu addysg y rhieni. Felly, er enghraifft, pan fyddwn yn siarad am rywun sydd â "chefndir proffesiynol uwch", rydym yn golygu bod gan o leiaf un o'u rhieni alwedigaeth broffesiynol uwch pan oedd y person hwn yn blentyn.

Mesurau symudedd absoliwt a pherthynas

Mae mesurau absoliwt yn dal nifer y bobl sydd wedi profi symudedd. Maent fel arfer yn cael eu mynegi yn ganrannau o'r boblogaeth. Er enghraifft, y gyfradd symudedd galwedigaethol absoliwt yw canran y bobl sydd mewn dosbarth galwedigaethol gwahanol i'w rhieni. Ar gyfer symudedd incwm, mesur absoliwt cyffredin yw canran y bobl y mae eu hincwm yn uwch nag incwm eu rhieni, ar yr un oedran. Gallwn gymharu'r cyfraddau hyn ar draws gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.

Mae mesurau cymharol yn cymharu'r siawns sydd gan o leiaf 2 grŵp o gyrraedd deiliant penodol, yn erbyn ei osgoi. Yr elfen hon o gymhariaeth sy'n gwneud mesurau o'r fath yn gymharol. Mae mesur symudedd cymharol yn dweud wrthym fod gan un grŵp gyfleoedd gwell na'r llall, yn hytrach na dweud wrthym gyfanswm nifer y bobl sy'n symudol yn gymdeithasol. Mae symudedd cymharol isel yn golygu bod y rhai sy'n dechrau bywyd mewn sefyllfa benodol yn fwy tebygol nag eraill o fod yn yr un sefyllfa yn ddiweddarach mewn bywyd. Am y rheswm hwnnw, gellir ystyried symudedd cymharol isel fel 'gludiogrwydd', tra gellir ystyried symudedd cymharol uchel fel 'hylifedd'.

Mae ein mynegeion cyfansawdd yn dweud wrthym sut mae gwahanol ardaloedd daearyddol y DU yn cymharu o ran symudedd cymdeithasol.

Rydym yn mesur cefndir economaidd-gymdeithasol gan ddefnyddio grŵp 5 rhan yn seiliedig ar ddosbarthiadau galwedigaethol.

Mynegeion cyfansawdd

Fel yn adroddiad y llynedd, rydym yn cynnwys mynegeion cyfansawdd, sy'n cwmpasu rhai o'n hysgogwyr a deilliannau canolradd. Rydym yn eu galw yn fynegeion cyfansawdd, oherwydd maen nhw'n crynhoi ysgogwyr lluosog, neu ddeilliannau canolradd, mewn un sgôr. Maent yn rhoi crynodeb i ni o sut mae gwahanol ardaloedd daearyddol y DU yn cymharu ar y prif ddimensiynau symudedd yr ydym wedi'u nodi o'r data.

Mae'r cyfansoddion hefyd yn ein galluogi i fod yn fwy hyderus wrth ddod i gasgliadau am unrhyw wahaniaethau rhwng ardaloedd daearyddol. Mae amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd unigol yn y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys gwallau samplu (gan eu bod yn seiliedig ar arolygon enghreifftiol, fel yr Arolwg o'r Llafurlu (LFS)).⁶ Felly mae risg bob amser y gallai gwahaniaethau rhwng ardaloedd o ran un mesur fod oherwydd gwallau samplu ar hap. Er mwyn mynd o gwmpas yr amherthnasedd hwn, rydym yn crynhoi canfyddiadau ar draws sawl dangosydd sy'n ymddangos yn gysylltiedig. A phan fydd yr holl fesurau lluosog yn rhoi darlun tebyg, gallwn ni ddweud yn hyderus bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng yr ardaloedd. Wedyn gallwn ddechrau gofyn a yw'r gwahaniaethau hyn oherwydd yr ardaloedd eu hunain neu'r unigolion sy'n byw ynddynt.

⁶ "Mae'r LFS yn astudiaeth o amgylchiadau cyflogaeth poblogaeth y DU. Hon yw'r astudiaeth aelwydydd fwyaf yn y DU ac mae'n darparu'r mesurau swyddogol o gyflogaeth a diweithdra". Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Labour force survey', 2021. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK



Cefndir economaidd-gymdeithasol

Rydym yn mesur SEB gan ddefnyddio'r un grŵp 5 rhan ag a gyflwynwyd gennym llynedd.⁷ Mae'r grŵp hwn yn defnyddio'r dosbarthiadau galwedigaethol yn system Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (NS-SEC).⁸ Mae 8 dosbarth 'dadansoddol' yn yr NS-SEC, ac fe wnaethom eu grwpio'n 5 categori: 'uwch broffesiynol a rheolaethol', 'proffesiynol a rheolaethol is', 'canolradd', 'dosbarth gweithiol uwch', a 'dosbarth gweithiol is'.

Rydym yn defnyddio'r grwpio hwn i edrych nid yn unig ar gefndir cymdeithasol-economaidd

neu alwedigaethol person - mewn geiriau eraill, y swydd gafodd rhieni person - ond ar beth mae'r person hwnnw'n ei wneud ar hyn o bryd. Er enghraifft, os ydym yn dweud bod gan rywun 'gefndir proffesiynol uwch', mae hyn yn golygu bod gan eu rhieni alwedigaeth broffesiynol neu uwch reolaethol.⁹

Roedd grwpiau blaenorol yn cynnwys dim ond 3 chategori - 'proffesiynol a rheolaethol', 'canolradd' a 'dosbarth gweithiol'. Fodd bynnag, roedd y categorïau hyn yn eang ac nid oeddent yn darparu digon o wybodaeth i ddeall symudedd amrediad byr. Roedd defnyddio 3 chategori hefyd yn golygu bod cryn amrywiaeth o fewn pob categori.

⁷ S Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Cyflwr y wlad 2023: pobl a lleoedd', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

⁸ Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn casglu, dadansoddi a rhannu ystadegau am economi, cymdeithas a phoblogaeth y DU. ONS, 'Y dosbarthiad economaidd-gymdeithasol ystadegau cenedlaethol (NS-SEC)', 2021. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

⁹ Mae'r LFS yn gofyn i ymatebwyr beth oedd galwedigaeth y prif enillydd yn yr aelwyd pan oedd yr ymatebydd yn 14 oed. Dyma beth rydym yn ei ddefnyddio wrth adrodd SEB gan ddefnyddio'r LFS.



Sut mae mesur cefndir economaidd-gymdeithasol (SEB)?

Mae SEB yn adlewyrchu man cychwyn person. Mae SEB person yn cael ei fesur trwy edrych ar sefyllfa economaidd-gymdeithasol wrth iddo tyfu. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ddosbarth galwedigaethol, incwm neu addysg y rhieni. Felly, er enghraifft, gallem edrych a oedd gan un neu'r ddau o rieni unigolyn radd pan oedd y person yn blentyn.

Trwy gydol ein hadroddiad, rydym yn aml yn adrodd ar SEB, fel y'i cofnodir yn Arolwg y Gweithlu (LFS) – arolwg sampl cynrychioliadol i ddarparu gwybodaeth am farchnad lafur y DU. Yn yr arolwg hwn, gofynnir i gyfranogwyr am eu swyddi presennol a pha swydd a wnaeth y prif enillydd yn yr aelwyd pan oedd yn 14 oed. Mae hyn yn ein galluogi i edrych yn ôl ar SEB rhywun heb orfod olrhain yr un unigolyn dros yr holl flynyddoedd sy'n dilyn. Mae'r LFS hefyd yn cwmpasu'r DU gyfan, yn unol â rhwymedigaethau statudol y SMC.

Cefndir economaidd-gymdeithasol person yw ei fan cychwyn mewn bywyd. I fesur hyn, rydym yn archwilio agweddau ar fywydau ei rieni, fel dosbarth galwedigaethol, incwm neu addysg.

Gallwn nawr edrych ar symudedd byr a hir, yn ogystal â gwahaniaethau pwysig o fewn y grwpiau proffesiynol a dosbarth gweithiol gyda'r 5 categori hyn. Er enghraifft, gallwn benderfynu a yw rhywun o gefndir dosbarth gweithiol is bellach yn gweithio mewn galwedigaeth dosbarth gweithiol uwch.

Tabl 1: Ein grŵp 5 rhan o ddsbarthiadau galwedigaethol yn seiliedig ar yr NS-SEC.

NS-SEC	Grwpio 3-Rhan Blaenorol	Grwpio 5-Rhan	Galwedigaethau Enghreifftiol
1	Proffesiynol a rheoli	Uwch broffesiynol gan gynnwys uwch reolwyr, gweinyddol a phroffesiynol	Prif swyddog gweithredol cwmni mawr, meddyg, clerigwr, peiriannydd, uwch swyddog yn y fyddin
2		Proffesiynol is gan gynnwys rheolwyr is, gweinyddol a phroffesiynol	Athro, nyrs, rheolwr swyddfa, newyddiadurwr, dylunydd gwe
3	Canolradd ¹⁰	Canolradd gan gynnwys galwedigaethau canolradd, cyflogwyr bach a gweithwyr llawrydd	Gweithiwr clerig, hyfforddwr gyrru, dylunydd graffig, peiriannydd TG, siopwr, rheolwr gwesty, gyrrwr tacsï, towr
4			
5	Dosbarth gweithiol	Dosbarth gweithiol uwch gan gynnwys gweithwyr goruchwylïol is, technegol a lled-reolaidd	Fforman, mecanydd, trydanwr, gyrrwr trên, argraffydd, cynorthwy-ydd siop, warden traffig, ceidwad tŷ, gweithiwr fferm
6			
7		Dosbarth gweithiol is a theuluoedd di-waith	Glanhawr, porthor, gweinydd, llafurwr, casglwr sbwriel, briciwr
8			

¹⁰ Gall rhai galwedigaethau arferol gyfrif fel canolradd os yw'r gweithiwr yn hunangyflogedig.



Dosbarth galwedigaethol o'i gymharu ag enillion

Nid yw mathau o swyddi bob amser ynghlwm wrth faint rydych chi'n ei ennill. Weithiau mae pobl mewn dosbarthiadau galwedigaethol is yn ennill mwy na'r rhai sydd mewn dosbarthiadau galwedigaethol uwch. Er enghraifft, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cyfrif yn uwch weithwyr proffesiynol, NS-SEC 1, oherwydd bod eu swydd yn gofyn am radd gyntaf ar gyfer hyfforddiant sy'n gysylltiedig â mynediad a phrofiad, a defnyddio corff o wybodaeth yn ymarferol i gyfarwyddo eraill. Ac eto, mae eu cyflog cyfartalog yn is na chyflog llawer o alwedigaethau dosbarth gweithiol, gan gynnwys rhai galwedigaethau llaw arferol.

Gall hefyd fod amrywiaeth mawr o ran enillion o fewn dosbarth. Er enghraifft, mae cynorthwyr addysgu yn ennill £19,033 ar gyfartaledd, ac mae cynorthwyr teithio rheilffyrdd yn ennill £36,080 ar gyfartaledd, ond mae'r ddwy alwedigaeth yn cael eu hystyried yn rhai 'canolradd'.¹¹ Ar wahân i gyflogau gwahanol, gall fod gan y swyddi hyn amgylchiadau gwaith gwahanol iawn hefyd.

Ac, yn olaf, gall dau berson sy'n gwneud yr un math o waith fod mewn dosbarthiadau gwahanol os yw'r naill yn gyflogai a'r llall yn hunangyflogedig gan fod yr un hunangyflogedig yn tueddu i gael ei ystyried yn ganolradd. Er enghraifft, byddai briciwr sy'n gyflogai yn NS-SEC 7, dosbarth gweithiol is, tra byddai briciwr hunangyflogedig yn NS-SEC 4, dosbarth canolradd. Gall cyflogau yn y ddau achos yma fod yn wahanol iawn hefyd.

Galwedigaethau enghreifftiol, eu dosbarthiadau NS-SEC a chyflogau canolrif

Therapyddion lleferydd ac iaith:

NS-SEC 1 – uwch broffesiynol.

Cyflog canolrifol: £31,932

Gyrwyr trên a thramiau:

NS-SEC 5 – dosbarth gweithiol uwch.

Cyflog canolrifol: £63,807.

Gosodwyr ac atgyweirwyr dyfeisiau aerdymheru ac oergeloedd:

NS-SEC 6 – dosbarth gweithiol uwch.

Cyflog canolrifol: £39,818

Gyrwyr cerbydau nwyddau mawr:

NS-SEC 7 – dosbarth gweithiol is.

Cyflog canolrifol: £36,847.¹²

¹¹ Swyddfa Ystadegau Gwladol, '14a', 'Enillion ac oriau a weithiwyd, galwedigaeth fesul SOC pedwar digid: ASHE tabl 14a', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

¹² Swyddfa Ystadegau Gwladol, '14a', 'Enillion ac oriau a weithiwyd, galwedigaeth fesul SOC pedwar digid: ASHE tabl 14a', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

Gwelliannau eleni

Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers adroddiad y llynedd, gan ddarparu manylion cyfoethocach a mwy o fewnwelediadau. Rydym yn nodi'r newidiadau hyn isod.

Mynegeion cyfansawdd newydd

Mae ein Mynegai yn parhau i fod yn gymharol â'r un a gyhoeddwyd gennym llynedd. Fodd bynnag, rydym yn cadw golwg ar ein rhestr o ddangosyddion i sicrhau ein bod yn cofnodi'r hyn sy'n bwysig. Rydym wedi diweddarau rhai dangosyddion ac wedi gwella ein mesurau crynhoi, yr ydym yn eu galw'n fynegeion cyfansawdd.

Bellach mae gennym un mynegai cyfansawdd ar gyfer deilliannau canolradd ar lefel ALI haen uchaf. Mae hyn yn rhoi 203 o ranbarthau daearyddol i ni ar draws y DU, yn hytrach na'r 41 ranbarth oedd gwnnwm llynedd Mae'r mynegai hwn, o'r enw Rhagolygon Addawol, yn cwmpasu'r cymwysterau enillion fesul awr uchaf, a galwedigaethau proffesiynol a dosbarth gweithiol pobl ifanc.

Yn yr un modd, rydym wedi datblygu 3 mynegai cyfansawdd newydd o yrwyr ar lefel ALI haen uchaf, gan roi'r un 203 o ranbarthau daearyddol. Gelwir y mynegai cyntaf yn seiliedig ar ysgogwyr yn Amgylchiadau Plentyndod. Mae hyn yn cynnwys tlodi plentyndod, addysg rhieni, galwedigaeth dosbarth gweithiol rhieni a galwedigaeth broffesiynol rhieni. Yr ail fynegei sy'n seiliedig ar ysgogwyr yw Cyfleoedd y Farchnad Lafur i bobl ifanc. Mae hwn yn cynnwys diweithdra, cyflogaeth broffesiynol, a chyflogaeth dosbarth gweithiol ieuencid. Yn olaf, rydym wedi cadw ein mynegai cyfansawdd sy'n edrych ar ymchwil a datblygu, ond wedi ei wella fel ei fod hefyd yn rhoi 203 o ranbarthau i ni. Mae'r mynegai hwn bellach yn cael ei alw'n Arloesi a Thyfu. Gellir dod o hyd i esboniad manylach o'n methodoleg yn ein hatodiad technol ar-lein.

Dadansoddiadau daearyddol newydd

Yn 2023, gwnaethom ddarparu dadansoddiadau daearyddol newydd ar gyfer rhai o'n dangosyddion. I wneud hynny, gwnaethom ddefnyddio rhanbarthau a ddiffinnir gan fframwaith dosbarthu Lefel Tiriogaethol Rhyngwladol (ITL) yr ONS.¹³ Gwnaethom ganolbwyntio ar ddadansoddiadau ar y lefel a elwir yn ITL2, sy'n rhannu'r DU yn 41 ranbarth. Roedd gan bob ranbarth rhwng 800,000 a 3,000,000 o drigolion ac roedd yn cynnwys tua 4 ALI haen uchaf.

Eleni, rydym yn gwella ar y dadansoddiad hwn ac yn darparu dadansoddiadau daearyddol manylach. Rydym wedi rhannu'r Deyrnas Unedig yn 203 o ALLau haen uchaf neu un haen.¹⁴ Mae ardaloedd ALI yn amrywio'n fawr o ran nifer y trigolion, ond maent yn fwy adnabyddus fel rhaniadau daearyddol, ac mae ganddynt gyfrifoldeb polisi dros addysg a thrafnidiaeth (ymhlith pethau eraill). Wrth wneud hyn, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ein hamcan fframwaith polisi o ddatblygu'r data a'r dulliau ar gyfer dulliau seiliedig ar leoedd.

Rydym yn darparu'r dadansoddiad hwn trwy gyfuno dangosyddion yn fformiwlâu cryno (mewn geiriau eraill, mynegeion cyfansawdd) a chyfuno mwy o flynyddoedd o'r data LFS a'r bandiau oedran ehangach. Mae gwneud hyn yn ein galluogi i gynyddu maint y sampl fel y gallwn gyhoeddi ffigurau ar wahân ar gyfer pob ALI haen uchaf neu un haen.

Eleni, rydym wedi gwella ein dadansoddiad a darparu dadansoddiadau daearyddol manylach. Rydym wedi rhannu'r Deyrnas Unedig yn 203 o ALLau haen uchaf neu un haen.

¹³ Cod a ddefnyddir i rannu'r Deyrnas Unedig yn ddaearyddol at ddibenion ystadegol. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Territorial levels UK, international territorial levels', 2021. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

¹⁴ Mewn rhai ardaloedd yn Lloegr, rhennir llywodraeth leol rhwng cyngor sir (haen uchaf) a chyngor dosbarth (haen is), sy'n gyfrifol am wahanol wasanaethau. Mewn ardaloedd eraill, mae un awdurdod lleol unedol yn lle hynny.




Gwahaniaethau rhwng Lefel 2 Tiriogaeth Ryngwladol (ITL2) a dadansoddiadau awdurdodau lleol (ALlau).

Mewn rhai ardaloedd yn y DU, rhennir llywodraeth leol rhwng cyngor sir (ALI haen uchaf) a chyngor dosbarth (ALI haen is), sy'n gyfrifol am wahanol wasanaethau. Mewn ardaloedd eraill, mae ALI un haen (unedol) yn lle hynny. Mae'r dadansoddiad eleni yn rhannu'r DU fesul ALlau haen uchaf ac un haen Mae 203 o ardaloedd ALI o'r fath ar draws y DU yn ein dadansoddiad. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfyngiadau data wedi golygu na allwn ddarparu dadansoddiadau daearyddol ychwanegol,

felly yn hytrach rydym yn cyflwyno Gogledd Iwerddon yn un uned ddaearyddol.

Llynedd, gwnaethom ddarparu dadansoddiadau yn ITL2, a oedd yn cynnwys ardaloedd sy'n cynnwys tua 4 Awdurdod Lleol haen uchaf ar gyfer cyfanswm o 41 rhanbarth. Yn ITL2, er enghraifft, cafodd Swydd Henffordd, Swydd Gaerwrangon a Swydd Warwick eu grwpio yn un rhanbarth. Eleni maent yn cael eu hystyried ar wahân.

Ffigur 1.1: Lefelau 203 ALI y DU a gynhwysyd yn ein dadansoddiad.




Ffynhonnell: Porth Daearyddiaeth Agored yr ONS, ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL, Ionawr 2021.¹⁵

Sylwer: Mae'r map yn dangos 203 o ardaloedd ALI y DU yn ein dadansoddiad. Nid oedd ein data yn caniatáu inni rannu Gogledd Iwerddon yn ardaloedd daearyddol llai.

15 ONS Daearyddiaeth, '[Ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL](https://geoportal.statistics.gov.uk/)', 2021. Cyhoeddwyd ar [GEOPORTAL.STATISTICS.GOV.UK](https://geoportal.statistics.gov.uk/).


Ffigur 1.2: Lefelau'r 203 o ALLau wedi eu rhannu fesul rhanbarthau mwy o'r DU.



Ffynhonnell: Porth Daearyddiaeth Agored yr ONS, ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL, Ionawr 2021.¹⁶

16 ONS Daearyddiaeth, 'Ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL', 2021. Cyhoeddwyd ar [GEOPORTAL.STATISTICS.GOV.UK](https://geoportals.statistics.gov.uk).


Ffigur 1.2a: Lefelau'r 203 o ALLau wedi eu rhannu fesul rhanbarthau mwy o'r DU yn fanylach.



Ffynhonnell: Porth Daearyddiaeth Agored yr ONS, ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL, Ionawr 2021.¹⁷

17 ONS Daearyddiaeth, 'Ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL', 2021. Cyhoeddwyd ar [GEOPORTAL.STATISTICS.GOV.UK](https://geoportals.statistics.gov.uk).

Ffigur 1.2b: Lefelau'r 203 o ALLau wedi eu rhannu fesul rhanbarthau mwy o'r DU yn fanylach.




Ffynhonnell: Porth Daearyddiaeth Agored yr ONS, ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL, Ionawr 2021.¹⁸

Sylwer: Nid oedd ein data yn caniatáu inni rannu Gogledd Iwerddon yn ardaloedd daearyddol llai.

18 ONS Daearyddiaeth, 'Ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL', 2021. Cyhoeddwyd ar [GEOPORTAL.STATISTICS.GOV.UK](https://geoportals.statistics.gov.uk).


Ffigur 1.2c: Lefelau'r 203 o ALLau wedi eu rhannu fesul rhanbarthau mwy o'r DU yn fanylach.



Ffynhonnell: Porth Daearyddiaeth Agored yr ONS, ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL, Ionawr 2021.¹⁹.

19 ONS Daearyddiaeth, 'Ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL', 2021. Cyhoeddwyd ar [GEOPORTAL.STATISTICS.GOV.UK](https://geoportals.statistics.gov.uk).

Ffigur 1.2d: Lefelau'r 203 o ALLau wedi eu rhannu fesul rhanbarthau mwy o'r DU yn fanylach.



Ffynhonnell: Porth Daearyddiaeth Agored yr ONS, ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL, Ionawr 2021.²⁰

20 ONS Daearyddiaeth, 'Ffiniau hierarchaeth daearyddiaeth ITL', 2021. Cyhoeddwyd ar [GEOPORTAL.STATISTICS.GOV.UK](https://geoportals.statistics.gov.uk).

Tabl 1.3: Y 203 ardal haen uchaf yn y DU yn ein dadansoddiad.

Rhif	Rhanbarth	Rhif	Rhanbarth	Rhif	Rhanbarth	Rhif	Rhanbarth
1	Camden a Dinas	27	Brent	53	Sefton	78	Leeds
	Llundain	28	Ealing	54	Cilgwri	79	Calderdale
2	Westminster	29	Harrow	55	Durham	80	Kirklees
3	Kensington a Chelsea	30	Hillingdon	56	Hartlepool	81	Wakefield
4	Hammersmith a Fulham	31	Hounslow	57	Stockton-on-Tees	82	Derby
5	Wandsworth	32	Richmond upon Thames	58	Middlesbrough	83	CS Swydd Derby
6	Hackney	33	Manceinion	59	Redcar a Cleveland	84	CS Swydd Nottingham
7	Newham	34	Salford	60	Darlington	85	Nottingham
8	Tower Hamlets	35	Trafford	61	Northumberland	86	Caerlŷr
9	Haringey	36	Stockport	62	Newcastle upon Tyne	87	Rutland
10	Islington	37	Tameside	63	Gogledd Tyneside	88	CS Swydd Caerlŷr
11	Lewisham	38	Bolton	64	De Tyneside	89	Gogledd Swydd
12	Southwark	39	Wigan	65	Gateshead		Northampton
13	Lambeth	40	Bury	66	Sunderland	90	Gorllewin Swydd
14	Bexley	41	Oldham	67	Cumbria		Northampton
15	Greenwich	42	Rochdale	68	Hull	91	CS Swydd Lincoln
16	Barking a Dagenham	43	Blackburn gyda Darwen	69	Dwyrain Riding Swydd	92	Swydd Henffordd
17	Havering	44	Blackpool		Efrog	93	CS Swydd Caerwrangon
18	Redbridge	45	CS Swydd Gaerhifryn	70	Gogledd-ddwyrain	94	CS Warwick
19	Waltham Forest	46	Dwyrain Swydd Gaer		Swydd Lincoln	95	Telford a Wrekin
20	Enfield	47	Gorllewin Swydd Gaer	71	Gogledd Swydd Lincoln	96	Swydd Amwythig
21	Bromley		a Chaer	72	Dinas Caerffrog	97	Stoke-on-Trent
22	Croydon	48	Warrington	73	Barnsley	98	CS Swydd Stafford
23	Merton	49	Halton	74	Doncaster	99	Birmingham
24	Kingston upon Thames	50	Knowsley	75	Rotherham	100	CS Swydd Suffolk
25	Sutton	51	St Helens	76	Sheffield		
26	Barnet	52	Lerpwl	77	Bradford		

Rhif	Rhanbarth	Rhif	Rhanbarth	Rhif	Rhanbarth	Rhif	Rhanbarth
101	Coventry	128	CS Surrey	153	CS Sir y Fflint	179	Dinas Dundee
102	CS Swydd Norfolk	129	CS Gorllewin Sussex	154	Wrecsam	180	Swydd Dwyrain Ayr
103	Solihull	130	Portsmouth	155	CS Powys	181	Swydd Dwyrain
104	Dudley	131	Southampton	156	CS Ceredigion		Dunbarton
105	Sandwell	132	Ynys Wyth	157	CS Penfro	182	Dwyrain Lothian
106	Luton	133	CS Swydd Hampshire	158	CS Caerfyrddin	183	Swydd Dwyrain Renfrew
107	Walsall	134	Medway	159	Abertawe	184	Dinas Caeredin
108	Wolverhampton	135	CS Caint	160	Castell-nedd Port Talbot	185	Falkirk
109	Peterborough	136	Bryste	161	Pen-y-bont ar Ogwr	186	Fife
110	CS Swydd Caergrawnt	137	Caerfaddon a Gogledd-	162	Bro Morgannwg	187	Dinas Glasgow
111	CS Swydd Hertford		Ddwyrain Gwlad yr Haf ²¹	163	Rhondda Cynon Taf	188	Uchedlir yr Alban
112	Bedford	138	Plymouth	164	Merthyr Tudful	189	Inverclyde
113	Canolbarth Swydd	139	Torbay	165	Caerffili	190	Midlothian
	Bedford	140	Swindon	166	Blaenau Gwent	191	Moray
114	Southend-on-Sea	141	Bournemouth,	167	Torfaen	192	Swydd Gogledd Ayr
115	Thurrock		Christchurch a Poole	168	CS Sir Mynwy	193	Swydd Gogledd Lanark
116	Essex	142	Cernyw ac Ynysoedd Sili	169	Casnewydd	194	Ynysoedd Erch
117	Swydd Buckingham	143	CS Dyfnant	170	Caerdydd	195	Perth a Kinross
118	Bracknell Forest	144	Dorset	171	Dinas Aberdeen	196	Swydd Renfrew
119	Gorllewin Berkshire	145	CS Swydd Gaerloyw	172	Swydd Aberdeen	197	Ynysoedd Shetland
120	Reading	146	CS Gwlad yr Haf	173	Angus	198	Swydd De Ayr
121	Slough	147	Swydd Wiltshire	174	Argyll ac Ynysoedd Bute	199	Swydd De Lanark
122	Windsor a Maidenhead	148	CS Swydd Gogledd	175	Gororau'r Alban	200	Stirling
123	Swydd Wokingham		Efrog	176	Swydd Clackmannan	201	Gorllewin Lothian
124	Milton Keynes	149	Ynys Môn	177	Swydd Gorllewin	202	Na h-Eileanan Siar
125	CS Swydd Rhydychen	150	Gwynedd		Dunbarton	203	Gogledd Iwerddon
126	Brighton a Hove	151	Conwy	178	Dumfries a Galloway		
127	CS Dwyrain Sussex	152	CS Sir Ddinbych				

21 Mae Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf yn cynnwys 3 awdurdod unedol Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Gogledd Gwlad yr Haf a De Swydd Gaerloyw

Pan nad yw'r data'n caniatáu i ni rannu'r DU yn rhanbarthau llai, rydym yn defnyddio 41 rhanbarth ITL2 y DU ar gyfer ein dadansoddiad.

Tabl 1.4: 41 rhanbarth ITL2 y DU yn ein dadansoddiad.

Rhif	rhanbarth ITL2 (a rhanbarth ITL1 sy'n ei gynnwys)
1	Llundain Fewnol – Gorllewin (Llundain)
2	Llundain Fewnol – Dwyrain (Llundain)
3	Llundain Allanol – De (Llundain)
4	Llundain Allanol – Dwyrain a Gogledd-ddwyrain (Llundain)
5	Llundain Allanol – Gorllewin a Gogledd-orllewin (Llundain)
6	Swydd Bedford a Swydd Hertford (Dwyrain Lloegr)
7	Swydd Berkshire, Swydd Buckingham a Rhydychen (De-ddwyrain Lloegr)
8	Swydd Gaer (Gogledd-orllewin Lloegr)
9	Cernyw ac Ynysoedd Sili, (De-orllewin Lloegr)
10	Cumbria (Gogledd-orllewin Lloegr)
11	Swydd Derby a Swydd Nottingham (Dwyrain Canolbarth Lloegr)
12	Dyfnaint (De-orllewin Lloegr)
13	Dorset a Gwlad yr Haf (De-orllewin Lloegr)
14	Dwyrain Anglia (Dwyrain Lloegr)
15	Dwyrain Swydd Efrog a Gogledd Swydd Lincoln (Swydd Efrog a Humber, Lloegr)
16	Essex (Dwyrain Lloegr)
17	Swydd Gaerloyw, Wiltshire a Bryste a Chaerfaddon (De-orllewin Lloegr)
18	Manceinion Fwyaf (Gogledd-orllewin Lloegr)
19	Swydd Hampshire ac Ynys Wyth (De-ddwyrain Lloegr)
20	Swydd Henffordd, Swydd Gaerwrangon a Swydd Warwick (Gorllewin Canolbarth Lloegr)
21	Caint (De-ddwyrain Lloegr)
22	Swydd Gaerhirfryn (Gogledd-orllewin Lloegr)
23	Swydd Gaerlŷr, Rutland a Swydd Northampton (Dwyrain Canolbarth Lloegr)
24	Swydd Lincoln (Dwyrain Canolbarth Lloegr)
25	Glannau Mersi (Gogledd-orllewin Lloegr)
26	Gogledd Swydd Efrog (Swydd Efrog a Humber, Lloegr)
27	Gogledd Iwerddon (Gogledd Iwerddon)
28	Northumberland a Tyne and Wear (Gogledd-ddwyrain Lloegr)
29	Swydd Amwythig a Swydd Stafford (Gorllewin Canolbarth Lloegr)
30	De Swydd Efrog (Swydd Efrog a Humber, Lloegr)
31	Surrey, Dwyrain a Gorllewin Sussex (De-ddwyrain Lloegr)
32	Dyffryn Tees a Durham (Gogledd-ddwyrain Lloegr)
33	Gorllewin Canolbarth (Gorllewin Canolbarth Lloegr)
34	Gorllewin Swydd Efrog (Swydd Efrog a Humber,)
35	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (Cymru)
36	Dwyrain Cymru (Cymru)
37	Ucheldiroedd yr Alban a'r Ynysoedd (Yr Alban)
38	Dwyrain yr Alban (Yr Alban)
39	Gorllewin Canolbarth yr Alban (Yr Alban)
40	De'r Alban (Yr Alban)
41	Gogledd-ddwyrain yr Alban (yr Alban)



2. Symudedd Ers Llynedd



Wedi'i amlygu

- Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM) a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau i fod heb newid i raddau helaeth ers llynedd. Er enghraifft, yn 5 mlwydd oed, mae bwlch cyson o tua 20 pwynt canran yng nghyrhaeddiad 'lefel dda o ddatblygiad'. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae wedi ehangu, fel cyfnod allweddol 4 (CA4).
- Ymhlith plant difreintiedig, mae merched yn dal i wneud yn well na bechgyn. Er enghraifft, yn 11 oed, mae 47% o ferched difreintiedig yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg, o'i gymharu â 41% o fechgyn.
- Mae plant sy'n gymwys i FSM o rai cefndiroedd ethnig yn cyflawni'n dda iawn. Er enghraifft, mae plant cymwys ar gyfer FSM o gefndir Tsieineaidd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer plant nad ydynt yn blant FSM yn CA2 a CA4 (11 ac 16 oed). Yn 11 oed, mae 71% o blant sy'n gymwys i FSM o gefndir Tsieineaidd yn cyrraedd y safonau gofynnol.
- Mae holl ardaloedd Llundain yn parhau i wneud yn dda o ran cyrhaeddiad addysgol i ddisgyblion sy'n gymwys i FSM yn 5 oed, 11 ac 16 oed.
- Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol yn y DU (ar ôl cyfrif am gostau tai) wedi codi ers 2012 ac mae tua 30%. Mae'n dal yn is na'r lefelau a gyrhaeddwyd yn y 1990au (pan oedd y ganran yn agosach at ganol y 30au), ond mae'n llawer uwch na lefelau hanesyddol o'r 1960au a'r 70au.
- Mae argaeledd addysg o ansawdd uchel yn y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn dda. Mae'r DU wedi perfformio ar gyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) neu'n uwch yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer mathemateg, darllen a gwyddoniaeth, ond mae sgoriau 2022 yn dangos gostyngiadau ledled y byd.

Wedi'i amlygu (parhad)

- Rydym yn gweld bod lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc bellach yr isaf y maent wedi bod ers 2014, sef 11% yn 2022. Mae hyn yn golygu bod llawer llai o bobl ifanc yn dioddef effeithiau negyddol diweithdra.
- Fodd bynnag, i'r bobl ifanc hynny sy'n ddi-waith, gallai dod o hyd i swydd fod yn anoddach, gan fod cyfraddau swyddi gwag wedi gostwng o 0.9 i 0.7 swydd wag ar gyfer pob person di-waith rhwng 2022 a 2023.
- Mae'n ymddangos bod cau'r bwlch cefndir economaidd-gymdeithasol (SEB) mewn cofrestru i brifysgolion rhwng 2014 a 2022. Yn 2014, roedd pobl ifanc o gefndiroedd proffesiynol uwch 3.9 gwaith yn fwy tebygol o fod yn astudio am radd na'r rhai o gefndiroedd dosbarth gweithiol is. Yn 2022 nid oeddent ond 2.2 gwaith yn fwy tebygol. Mae data gan yr Adran Addysg(DfE), sy'n mynd yn ôl i 2006, yn awgrymu bod hon yn duedd hyd yn oed yn y tymor hwy.²²
- Gall pobl ifanc â chymwysterau isel fod wedi cau'r bwlch enillion gyda'u cyfoedion mwy cymwys. Er enghraifft, bu cynnydd o 16% mewn enillion real yr awr i bobl â chymwysterau lefel is rhwng 2014 a 2016, a 2020 i 2022. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd ar gyfer pob grŵp sydd â chymwysterau lefel uwch.
- Mae ymgysylltu dinesig - cymryd rhan mewn prosesau democrataidd, megis llofnodi deiseb neu fynychu rali gyhoeddus - wedi gostwng o 40% i 34%.
- Mae canran y safleoedd sydd ag argaeledd gigabit ar y rhyngwrwyd wedi cynyddu'n sydyn ledled y DU ers 2020, gan feithrin gwell seilwaith technegol ar gyfer arloesi a thwf.
- Nid ydym wedi cynnwys amrediad llawn o ddadansoddiadau fesul nodweddion gwarchoddedig yn y ddogfen hon.²³Yn hytrach, cyhoeddir y dadansoddiadau hyn yn llawn ar ein gwefan, social-mobility.data.gov.uk.²⁴

22 Yn ein hadroddiad, mae SEB person yn golygu statws economaidd-gymdeithasol eu rhieni. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ddogfen galwedigaethol, incwm neu addysg y rhieni. Felly, er enghraifft, pan fyddwn yn siarad am rywun sydd â "chefndir proffesiynol uwch", rydym yn golygu bod gan o leiaf un o'u rhieni alwedigaeth broffesiynol uwch pan oedd y person hwn yn blentyn.

23 Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a hil (gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, a tharddiad ethnig neu genedlaethol). Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn rhywun sydd ag unrhyw un o'r nodweddion hyn.

24 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Data about social mobility in the UK', 2023. Cyhoeddwyd yn SOCIAL.MOBILITY.DATA.GOV.UK.



Mae argaeledd addysg o ansawdd uchel yn y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn dda. Mae'r DU wedi perfformio ar gyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd neu'n uwch yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ar gyfer mathemateg, darllen a gwyddoniaeth, ond mae sgoriau 2022 yn dangos gostyngiadau ledled y byd.



Cyflwyniad

Mae symudedd cymdeithasol wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Achosodd COVID-19 darfu hir ar addysg a chyflogaeth, ac mae twf cyflogau go iawn yn wan ers dros ddegawd. Ni fydd effeithiau llawn hyn yn hysbys tan ymhell i'r dyfodol. Fodd bynnag, fe wnaethom ddylunio ein Mynegai i ddal arwyddion rhybudd cynnar y gallai fod effaith ar symudedd yn y dyfodol, trwy edrych ar ein deilliannau canolradd a'n hysgogwyr.

Deilliannau canolradd

Mae unigolyn yn profi symudedd cymdeithasol rhwng cenedlaethau pan fydd deilliannau eu bywyd, fel eu math o alwedigaeth, yn wahanol i'w rhieni. Newid ar draws cenedlaethau, a'r cysylltiad rhwng rhieni a phlant, sydd wrth wraidd symudedd cymdeithasol. Felly mae ein deilliannau canolradd yn cymharu man cychwyn pobl â diweddbwynt yn eu harddegau, 20au, neu 30au cynnar, wrth iddynt symud trwy addysg ac i'r farchnad lafur. Mae'r pwyntiau diwedd cynnar (neu ganolradd) hyn yn rhoi syniad o beth fydd deilliannau

diweddarach pobl, oherwydd bydd y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad gwaith sydd gan bobl ifanc yn effeithio ar eu symudedd cymdeithasol.

Mae deall sut mae digwyddiadau diweddar wedi effeithio ar y rhain, megis pandemig COVID-19, yn hanfodol. Felly, rydym yn adrodd arnynt bob blwyddyn, gan y gall profiadau pob carfan o bobl sy'n gadael yr ysgol ac sy'n ymuno â'r farchnad lafur newid o flwyddyn i flwyddyn.

Deilliannau wedi'u rhannu yn ôl cefndir o'u cymharu â deilliannau cyffredinol

Er mwyn llunio mesurau deilliannau canolradd, mae angen 2 elfen arnom. Yn gyntaf, mae angen mesur o SEB - man cychwyn. Ac yn ail, mae angen deiliant economaidd-gymdeithasol - diweddbwynt. Y newid rhwng y ddau bwynt hyn wedyn yw faint o symudedd a brofir.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig ystyried deilliannau cyffredinol i'r boblogaeth gyfan, ni waeth beth fo'r SEB, oherwydd gall y rhain fod yn ddangosydd da o lefel y cyfleoedd sydd ar gael. Er enghraifft, mae system addysg sy'n perfformio'n dda yn dangos bod lefel uchel o gyfle i gael mynediad at addysg dda. Am y rheswm hwn, mae ein Mynegai yn cynnwys ysgiogwyr, nad ydynt wedi'u rhannu gan SEB.

Ysgogwyr

Rydym yn cynnwys ysgogwyr i roi syniad o ba mor dda y mae amgylchiadau da yn debygol o fod ar gyfer symudedd cymdeithasol yn y dyfodol. Felly, rydym yn mesur yr hyn sy'n digwydd i'r amgylchiadau cefndir ac sy'n gwneud symudedd cymdeithasol yn haws neu'n anoddach. Rydym yn galw'r amgylchiadau hyn yn 'ysgogwyr' symudedd cymdeithasol.

Mae ysgogwyr, megis mynediad at addysg a chyfleoedd gwaith o ansawdd da, wedi'u cynnwys os oes rheswm da dros eu cysylltu â gwell cyfraddau symudedd cymdeithasol cyffredinol. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a allai fod o fudd i unigolyn penodol. Er enghraifft, efallai y bydd mynd i ysgol ramadeg yn arwain at ddeilliannau gwell i unigolyn na phe bai'r un unigolyn yn mynd i ysgol annetholus yn yr un ardal. Ond mae hwn yn gwestiwn pendant i weld a fyddai system ysgol ramadeg yn arwain at gyfraddau symudedd uwch yn gyffredinol (yn anad dim oherwydd, yn ôl diffiniad, ni all y rhan fwyaf o bobl fynd i ysgol ramadeg).

Yn olaf, gan mai bwriad yr ysgogwyr yw dangos faint o amgylchiadau cenedlaethol neu leol sy'n helpu i symud, nid ydynt wedi eu rhannu yn ôl SEB, ac ni allant ddweud wrthym gyfradd symudedd cymdeithasol y DU. Rydym hefyd yn adrodd am y rhain bob blwyddyn.

Dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn edrych ar ddetholiad o ddangosyddion yn unig, yr ydym wedi gweld newidiadau pwysig ar eu cyfer yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gellir dod o hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o'r holl ddangosyddion yn ein Offeryn Archwiliwr Data ar-lein.

Ni fydd effeithiau llawn COVID-19 yn hysbys tan ymhell i'r dyfodol. Fodd bynnag, fe wnaethom ddylunio ein Mynegai i ddal arwyddion rhybudd cynnar y gallai fod effaith ar symudedd yn y dyfodol, trwy edrych ar ein deilliannau canolradd a'n hysgogwyr.

Deilliannau canolradd

Oedran ysgol gorfodol (5 i 16 oed)

Mae'r blynyddoedd ysgol yn ffurfio cyfnod hollbwysig lle mae plant yn datblygu. Mae'r blynyddoedd hyn yn adeiladu sylfaen bwysig ar gyfer bwrw ymlaen yn y gwaith ac mewn bywyd. Felly, mae monitro addysg a datblygu sgiliau yn bwysig er mwyn deall unrhyw wahaniaethau cynnar o ran deilliannau fesul cefndir cymdeithasol.

Mae mesurau cefndir cymdeithasol a systemau atebolrwydd yn amrywio ledled y DU. Felly, dim ond ar gyfer Lloegr yr ydym yn cyflwyno'r mesurau ar gyfer Lloegr.²⁵

Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn fesur o gefndir economaidd-gymdeithasol

Yr unig fesur SEB sydd ar gael yw cymhwysedd FSM. Mae FSM yn fesur deuaidd (cymwys neu ddim yn gymwys) sy'n dal tua yr 20% tlotaf o blith myfyrwyr. Mae gwaith blaenorol wedi gweld gorgyffwrdd sylweddol rhwng incwm teuluoedd sy'n gymwys ar gyfer FSM a'r rhai nad ydynt.²⁶ Er nad yw cymhwysedd FSM yn ddelfrydol, hwn yw'r unig fesur SEB sydd ar gael mewn data ysgolion.²⁷

Problem fwy difrifol yw, oherwydd yr amddiffyniadau trosiannol ynghylch cymhwysedd FSM wrth i ni symud o hen ddull budd-daliadau lluosog i Gredyd Cynhwysol, bellach mae nifer cynyddol o blant sy'n gymwys i gael FSM. Mae hyn yn golygu ei bod yn debyg nad yw'r plentyn cyffredin ar FSM heddiw mor ddifreintiedig â'r plentyn cyffredin ar FSM 10 mlynedd yn ôl. Felly bydd deilliannau blynyddoedd diweddaraf yn tueddu i danddatgan unrhyw fwch mewn cyflawniad, o'i gymharu â deilliannau o 10 mlynedd yn ôl. Mewn geiriau eraill, gall y bwch mesuredig fod wedi cau, hyd yn oed heb unrhyw newid sylfaenol yn y patrwm cyflawni.

Cyfrannau a rhifau absoliwt

Mewn llawer o'n dadansoddiad, rydym yn gwrthgyferbynnu cyfrannau disgyblion o wahanol grwpiau sy'n cyflawni lefel benodol o gyrhaeddiad. Mae hyn yn ein galluogi i gymharu'n ystyrion grwpiau o wahanol feintiau. Er enghraifft, mae llawer mwy o ddisgyblion nad ydynt yn Tsieineaidd yn ysgolion y DU nag sydd o ddisgyblion Tsieineaidd. Pe byddem yn edrych yn unig ar y niferoedd amrwd o ddisgyblion o bob grŵp yn cyrraedd y safon disgwylidiedig, byddem yn gweld bod llawer mwy o ddisgyblion nad ydynt yn Tsieineaidd yn gwneud hynny (yn union am fod llawer mwy o ddisgyblion nad ydynt yn Tsieineaidd i ddechrau). Ond os edrychwn ni ar ganrannau, mae hyn yn datgelu bod perfformiad disgybl Tsieineaidd cyffredin yn llawer uwch.

Yn yr un modd, o edrych ar ganrannau, gwelwn fod perfformiad disgybl cyffredin a ystyrir yn ddifreintiedig yn is na pherfformiad disgybl cyffredin nad yw'n hysbys ei fod dan anfantais. Ond mae'n bwysig cofio bod llawer mwy o ddisgyblion nad yw'n hysbys eu bod yn ddifreintiedig nag sydd o ddisgyblion difreintiedig - yn fras nid yw 3 gwaith yn gymwys ar gyfer FSM. Mae hyn yn ei dro yn golygu, o ran niferoedd amrwd, bod mwy o ddisgyblion nad ydynt yn ddifreintiedig yn methu â chyrraedd y safon ddisgwylidiedig na disgyblion difreintiedig. O ganlyniad, bydd unrhyw gamau gweithredu polisi sydd wedi'u targedu'n bennaf ar SEB (fel y Premiwm Disgyblion), o fwriad, yn anwybyddu'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n methu â chyrraedd y safon ddisgwylidiedig. Yr unig ffordd sicr o dargedu cymorth ar gyraeddiadau isel yw edrych yn uniongyrchol ar gyrhaeddiad.

25 Mae'r diffyg ystadegau addysg cytûn ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn golygu mai'r unig opsiwn ar hyn o bryd yw cael mesurau ar wahân (na ellir eu cymharu) ar gyfer pob un o'r pedair gwlad. Os nad yw mesurau wedi'u cysoni yn bosibl, rydym yn gobeithio cyflwyno data ar gyfer y gwledydd ar wahân yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae gan y gwledydd datganoledig arholiadau tebyg. Mae Cymru'n gwneud TGAU. Mae gan Ogledd Iwerddon Arholiadau Cenedlaethol 3, 4 a 5 ac mae gan yr Alban Arholiadau Cenedlaethol 3, 4 a 5 ac mae ganddi hefyd Arholiadau Uwch.

26 Graham Hobbs a Anna Vignoles, 'Is children's free school meal 'eligibility' a good proxy for family income?', 2013. Cyhoeddwyd yn BERA-JOURNALS, ONLINELIBRARY.WILEY.COM.

27 Ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023, roedd 23.8% o ddisgyblion yn gymwys i gael FSM. Mae hyn yn cynrychioli dros 2 filiwn o ddisgyblion. GOV.UK, 'School pupils and their characteristics', 2023. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

Lefel datblygiad yn 5 oed

Gan ddechrau gyda'r disgyblion ieuengaf, edrychwn ar 'lefel dda o ddatblygiad', fel y'i diffinnir ym mhroffil cyfnod sylfaen y blynyddoedd cynnar (EYFS). Bwriad proffil EYFS yw darparu cynrychiolaeth gywir o ddatblygiad pob plentyn ar ddiwedd yr EYFS i gynorthwyo eu pontio i flwyddyn un. Mae'n cynnwys asesiad o ddeilliannau'r plentyn mewn perthynas â 17 nod dysgu cynnar (ELGs) ar draws 7 maes dysgu.²⁸

Caiff plant eu diffinio yn rhai sydd â lefel dda o ddatblygiad ar ddiwedd yr EYFS os ydynt ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer y 12 ELG o fewn y 5 maes dysgu sy'n ymwneud â: cyfathrebu ac iaith; datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol; datblygiad corfforol; llythrennedd; a mathemateg.²⁹

Fel yn achos llynedd, oherwydd natur ddatganoledig y system addysg, dim ond ar gyfer plant yn Lloegr y gallwn ni fonitro'r mesur hwn.

Yn ogystal, nid oes modd cymharu data o flynyddoedd academaidd 2021 i 2022 a 2022 i 2023 yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol, oherwydd newidiadau yn y fframwaith EYFS.

Mae Ffigur 2 yn dangos, yn gyffredinol, bod canran y plant sy'n cyflawni lefel 'dda' o ddatblygiad yn 5 oed wedi cynyddu yn y 7 blwyddyn ysgol a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2019. Ni chasglwyd unrhyw ddata yn ystod y ddwy flynedd ysgol ganlynol oherwydd y pandemig. Wedyn, aildechreuwyd casglu data, ond ni ellir cymharu'r deilliannau yn uniongyrchol â'r rhai blaenorol oherwydd newidiadau mewn methodoleg Fodd bynnag, roedd cynnydd o 2 bwynt rhwng 2021 a 2022 (65%) a 2022 i 2023 (67%) yn y ganran a gyflawnodd lefel dda

o ddatblygiad (tua 416,000 o blant). I gael golwg fwy dibynadwy ar berfformiad addysgol cyffredinol, gweler Ysgogwyr 2.2, 'Argaeledd addysg ysgol o ansawdd uchel'.

Mae'r duedd hon yn gyson ar draws cefndiroedd cymwys ar gyfer FSM ac anghymwys ar gyfer FSM, fel yr adroddwyd gennym llynedd. At ei gilydd, roedd gan 72% o blant (tua 353,000 o blant) nad oeddent yn gymwys ar gyfer FSM lefel dda o ddatblygiad, o'i gymharu â dim ond 52% o blant a oedd yn gymwys i gael FSM (tua 56,000 o blant). Mae hyn hefyd yn golygu nad oedd gan 28% (tua 141,000 o blant) o'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer FSM lefel dda o ddatblygiad, tra nad oedd gan 48% (tua 53,000 o blant) o'r rhai a oedd yn gymwys ar gyfer FSM lefel dda o ddatblygiad.³⁰

Yn 5 oed:

Roedd gan 72% o blant nad oeddent yn gymwys i gael FSM lefel dda o ddatblygiad.

Roedd gan 52% o blant a oedd yn gymwys i gael FSM lefel dda o ddatblygiad.


28 GOV.UK, 'Early years foundation stage profile handbook', 2018. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

29 GOV.UK, 'Early years foundation stage profile results', 2023. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

30 GOV.UK, "Headline measures by characteristics' from 'early years foundation stage profile results'", 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

Ffigur 2: Mae'r bwllch yng nghanran y plant sy'n cyflawni lefel 'dda' o ddatblygiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael FSM a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn parhau i fod yn sylweddol.

Canran y myfyrwyr sy'n cyflawni 'lefel dda o ddatblygiad' yn 5 oed drwy gymhwysedd ar gyfer FSM yn Lloegr, o flwyddyn academaidd 2012 i 2013 i flwyddyn academaidd 2022 i 2023.




Ffynhonnell: DfE. Deilliannau proffil EYFS o flwyddyn academaidd 2022 i 2023, 2023.

Sylwer: Mae'r llinell lwyd yn cynrychioli pob plentyn. Mae'r ganran 'lefel dda o ddatblygiad' yn olrhain datblygiad yn 5 oed yn Lloegr yn unig. Caiff plant eu diffinio yn rhai sydd â lefel dda o ddatblygiad ar ddiwedd yr EYFS os ydynt ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer y 12 nod dysgu cynnar (ELG) o fewn y 5 maes dysgu sy'n ymwneud â: cyfathrebu ac iaith; datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol; datblygiad corfforol; llythrennedd; a mathemateg. Cafodd yr EYFS ei ddiwygio'n sylweddol ym mis Medi 2021 sy'n golygu na allwn gymharu'n uniongyrchol y deilliannau ar gyfer 2021 i 2022 a 2022 i 2023 â blynyddoedd cynharach. Cafodd y gwaith o gasglu data yn ystod y ddwy flynedd ysgol a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2021 ei ganslo oherwydd pandemig COVID-19. Diffinnir cymhwysedd FSM fel y'i casglwyd yng nghyfrifiad yr ysgol sy'n nodi a yw teulu plentyn wedi hawlio cymhwysedd. Gall rhieni hawlio FSM os ydynt yn derbyn rhai budd-daliadau.

Mae'r bwllch o tua 20 pwynt canran rhwng FSM a disgyblion cymwys nad ydynt yn FSM yn parhau i fod heb newid i raddau helaeth ers llynedd (20.4% yn 2021 i 2022 a 19.9% yn 2022 i 2023).

Ffigur 2.1: Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn tueddu i gyflawni lefel uwch o ddatblygiad yn 5 oed na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig.

Canran y myfyrwyr sy'n cyflawni 'lefel dda o ddatblygiad' yn 5 mlwydd oed yn sgil eu hamddifadedd incwm sy'n effeithio ar ddengradd mynegai plant (IDACI) yn Lloegr, ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Canlyniadau proffil EYFS o flwyddyn academaidd 2022 i 2023, 2023.

Sylwer: Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ble mae'r plentyn yn byw (mewn geiriau eraill, lleoliad ei breswylfa). Cyfrifir dengraddau'r IDACI yn seiliedig ar ganran y plant sy'n byw mewn aelwydydd ag amddifadedd incwm o fewn cymdogaeth benodol.³¹ Mae'r cymdogaethau hyn wedi'u grwpio'n ddengraddau fel mai'r 10% o gymdogaethau sydd â'r sgoriau uchaf (mwyaf difreintiedig) yw dengradd 1, a'r 10% o gymdogaethau gyda'r sgoriau isaf (lleiaf difreintiedig) yw dengradd 10. Mae'r ganran 'lefel dda o ddatblygiad' yn olrhain datblygiad yn 5 oed yn Lloegr yn unig. Caiff plant eu diffinio yn rhai sydd â lefel dda o ddatblygiad ar ddiwedd y EYFS os ydynt ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer y 12 ELG o fewn y 5 maes dysgu sy'n ymwneud â: cyfathrebu ac iaith; datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol; datblygiad corfforol; llythrennedd; a mathemateg.

Gwelwn duedd debyg pan edrychwn ar lefelau amddifadedd incwm yn seiliedig ar breswylfa plentyn Mae canran y plant sydd â lefel dda o ddatblygiad ar ei hisaf i'r rhai sy'n byw yn y 10% o gymdogaethau mwyaf difreintiedig yn Lloegr ac yn codi'n gynyddrannol i fod yr uchaf i'r rhai sy'n byw yn y 10% o gymdogaethau lleiaf difreintiedig. Fel gyda pherthnasoedd eraill a adroddir yma, cydberthynas yw hon ac ni ellir tybio perthynas achosol.

31 GOV.UK, 'Child characteristics', 2023. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.


Gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched

Mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn. Ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023, roedd gan fwy o ferched na bechgyn lefel dda o ddatblygiad (74.2% i ferched o'i gymharu â 60.6% o fechgyn yn gyffredinol), gyda'r bwch yn lledu ychydig o'i

gymharu â blwyddyn ynghynt (0.4 pwynt canran; 13.2% o wahaniaeth yn 2021 i 2022 a 13.6% yn 2022 i 2023). Mae'r bwch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael FSM a'r rhai nad ydynt yn gymwys hefyd yn llai i ferched (21% ar gyfer bechgyn a 18% i ferched).

Ffigur 2.2. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng bechgyn a merched wrth gyflawni lefel dda o ddatblygiad yn 5 oed. Mae'r bwch yn ôl cymhwysedd FSM yn fwy ymhlith bechgyn.

Canran y myfyrwyr sy'n cyflawni 'lefel dda o ddatblygiad' yn 5 oed yn ôl cymhwysedd ar gyfer FSM a rhyw yn Lloegr, ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Canlyniadau proffil EYFS o flwyddyn academaidd 2022 i 2023, 2023.

Sylwer: Mae'r ganran 'lefel dda o ddatblygiad' yn olrhain datblygiad yn 5 oed yn Lloegr yn unig. Caiff plant eu diffinio yn rhai sydd â lefel dda o ddatblygiad ar ddiwedd yr EYFS os ydynt ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer y 12 ELG o fewn y 5 maes dysgu sy'n ymwneud â: cyfathrebu ac iaith; datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol; datblygiad corfforol; llythrennedd; a mathemateg. Diffinnir cymhwysedd FSM fel y'i casglwyd yng nghyfrifiad yr ysgol sy'n nodi a yw teulu plentyn wedi hawlio cymhwysedd. Gall rhieni hawlio FSM os ydynt yn derbyn rhai budd-daliadau.

Ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023, roedd gan ragor o ferched na bechgyn lefel dda o ddatblygiad (74.2% ar gyfer merched o'i gymharu â 60.6% o fechgyn yn gyffredinol).


Gwahaniaethau rhwng rhanbarthau

Rydym yn dal i weld amrywiaeth sylweddol o ran deilliannau rhwng gwahanol ardaloedd. O'r rhanbarthau, yn 2022 i 2023, rhannau o Lundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd

Lincoln oedd â'r ganran uchaf o blant sy'n gymwys i gael FSM sydd â lefel dda o ddatblygiad, tra roedd y rhai isaf gan ranbarthau yn y Gogledd-orllewin a Swydd Efrog a Humber.

Ffigur 2.3. Disgyblion sy'n gymwys i FSM mewn rhannau o Lundain, Swydd Lincoln a Gorllewin Canolbarth Lloegr yw'r rhai mwyaf tebygol o gyflawni lefel dda o ddatblygiad yn 5 oed.

Canran y disgyblion sy'n gymwys i FSM sy'n cyrraedd lefel dda o ddatblygiad yn 5 oed gan ranbarthau ITL2 yn Lloegr, ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Canlyniadau EYFS yn 2023.

Sylwer: Mae'r Adran Addysg yn dangos canlyniadau ar gyfer pob ALI yn Lloegr. Mae'r data hwn wedi'i gyfuno i ranbarthau ITL2 trwy bwysoli canlyniadau'r ALI yn ôl nifer y disgyblion ym mhob awdurdod.



Cyrhaeddiad yn 11 oed

Rydym nawr yn edrych ar sut mae plant yn perfformio ar ddiwedd yr ysgol gynradd. Mae bodloni'r safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yn bwysig ar gyfer llwyddiant yn yr ysgol uwchradd ac, yn y pen draw, deilliannau symudedd diweddarach.


Mae Ffigur 2.4 yn dangos y gyfran o'r holl ddisgyblion sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig. Ym mhob un o'r darllen, ysgrifennu a mathemateg (gyda'i gilydd), roedd 60% o'r holl ddisgyblion (tua 400,000 o ddisgyblion) yn bodloni neu'n rhagori ar y safon ddisgwyliedig, i fyny o 59% ym mlwyddyn academaidd 2021 i 2022 (tua 390,000 o ddisgyblion). Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn is na'r cyrhaeddiad ym mlwyddyn academaidd 2018 i 2019, lle roedd 65% o ddisgyblion (tua 418,000 o ddisgyblion) yn cyrraedd y safon. Trafodir y dirywiad

hwn mewn perfformiad cyffredinol llwyr ymhellach yn Ysgogwyr 2.2, 'Argaeledd addysg ysgol o ansawdd uchel'. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn dangos nad oedd tua 268,000 o ddisgyblion yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn 2022 i 2023, o'i gymharu â thua 226,000 o ddisgyblion yn 2018 i 2019.

O ystyried y canfyddiadau yn ôl statws difreintiedig, gwelwn fod 44% o ddisgyblion difreintiedig (tua 90,000 o ddisgyblion) wedi bodloni'r safon ddisgwyliedig ar gyfer darllen, ysgrifennu a mathemateg yn 2022 i 2023 o'i gymharu â 66% o ddisgyblion eraill (tua 310,000 o ddisgyblion), sef gwahaniaeth o 22 pwynt canran.^{32 33} Mae hyn yn golygu nad oedd tua 114,000 o ddisgyblion difreintiedig a 159,000 o ddisgyblion eraill yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig.³⁴

Ffigur 2.4: Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o gyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yn CA2. Mae'r bwch hwn wedi ehangu ychydig ers cyn y pandemig.

Canran y myfyrwyr sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yn CA2 yn ôl statws anfantais yn Lloegr, o flwyddyn academaidd 2015 i 2016 i flwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Asesiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA2 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Mae'r llinell lwyd yn cynrychioli pob plentyn. Diffinnir disgyblion difreintiedig fel y rhai a gofrestrwyd yn rhai a oedd yn gymwys ar gyfer FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd diwethaf, a phlant sy'n derbyn gofal gan yr ALI neu a adawodd ofal yr ALI yng Nghymru a Lloegr drwy fabwysiadu, gorchymyn gwarcheidaeth arbennig, gorchymyn preswyllo neu orchymyn trefniadau plant. Nid oes modd cymharu cyrhaeddiad ym mhob un o'r meysydd darllen, ysgrifennu a mathemateg yn uniongyrchol â rhai blynyddoedd cynharach (2016 a 2017) oherwydd newidiadau i fframweithiau asesu athrawon yn 2018. Rhwng blynyddoedd academaidd 2018 i 2019 a 2021 i 2022, bu toriad mewn asesiadau oherwydd y pandemig, er bod modd cymharu'r ddau bwynt data diwethaf hyn.

32 Diffinnir disgyblion difreintiedig yn rhai a gofrestrwyd yn rhai a oedd yn gymwys ar gyfer FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd diwethaf, a phlant sy'n derbyn gofal gan yr ALI neu a adawodd ofal yr ALI yng Nghymru a Lloegr drwy fabwysiadu, gorchymyn gwarchodaeth arbennig, gorchymyn preswyllo neu orchymyn trefniadau plant.

33 Yn 2023, ystyriwyd bod 30% o ddisgyblion ar ddiwedd CA2 dan anfantais.


34 GOV.UK, "Attainment by pupil characteristics" from "key stage 2 attainment", 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS. SERVICE.GOV.UK.

Mae ffigur 2.5 yn dangos mynegai bwllch anfantais CA2. Mae hyn yn crynhoi'r bwllch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a phob disgybl arall.³⁵ Byddai bwllch anfantais o sero yn dangos bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn perfformio yn ogystal â disgyblion o gefndiroedd anfantais.

Gostyngodd y mynegai bwllch anfantais rhwng blynyddoedd academaidd 2010 i 2011 a 2018 i 2019, gan nodi bod y bwllch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion yn mynd yn llai. Arhosodd ar lefel debyg rhwng 2018 a 2019 a chynyddodd yn 2022 i'r lefel uchaf ers 2012. Mae'n parhau i fod yn ddigynffwrdd i raddau helaeth o 3.23 yn 2022 i 3.21 yn 2023.

Ffigur 2.5. Mae'r mynegai bwllch anfantais yn CA2 (11 oed) yn parhau heb newid ac yn sylweddol.

Mynegai bwllch cyrhaeddiad anfantais ar gyfer Lloegr yn CA2, o flwyddyn academaidd 2010 i 2011 i flwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Asesiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA2 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Gwneir cymariaethau trwy drefnu sgoriau disgyblion mewn asesiadau darllen a mathemateg ar ddiwedd CA2 ac asesu'r gwahaniaeth yn safle cyfartalog disgyblion difreintiedig ac eraill. Mae rheng cymedrig disgyblion yn y grwpiau difreintiedig a disgyblion eraill yn cael eu tynnu oddi wrth ei gilydd a'u lluosu gan ffactor o 20 i roi gwerth rhwng -10 a +10 (lle mae 0 yn dynodi dosbarthiad cyfartal o sgorau).³⁶ Diffinnir disgyblion difreintiedig yn rhai a gofrestrwyd yn rhai a oedd yn gymwys ar gyfer FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf, a phlant sy'n derbyn gofal gan yr ALI neu a adawodd ofal yr ALI yng Nghymru a Lloegr drwy fabwysiadu, gorchymyn gwarchodaeth arbennig, gorchymyn preswyllo neu orchymyn trefniadau plant.

35 Mae'r mynegai bwllch yn fwy gwydn i newidiadau i asesu na mesurau trothwy cyrhaeddiad ac felly mae'n cynnig mwy o gymhariaeth rhwng blynyddoedd. Mae'r mynegai yn rhestru pob disgybl yn y wlad ac yn asesu'r gwahaniaeth yn safle cyfartalog disgyblion difreintiedig ac eraill. Byddai bwllch anfantais o sero yn dangos nad oes gwahaniaeth rhwng perfformiad cyfartalog disgyblion difreintiedig a'r rhai sydd ddim yn ddifreintiedig. Rydym yn mesur a yw'r bwllch anfantais yn mynd yn fwy neu'n llai dros amser. Gweler yr atodiad technegol am ragor o wybodaeth.
 36 GOV.UK, 'Key stage 2 attainment', 2023. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.

Gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched


Yn gyson â llynedd, a'r blynyddoedd blaenorol, mae merched yn parhau i berfformio'n well na bechgyn ar y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg.

Er bod merched yn fwy tebygol na bechgyn o gyrraedd y safon ddisgwyliedig, mae'r bwlch rhwng y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sydd ddim yn ddifreintiedig yn debyg i fechgyn a merched ar tua 22 i 23 pwynt canran. Mae'r patrymau hyn o wahaniaethau rhwng y rhywiau yn 11 oed yn debyg iawn i'r rhai a ddangosir ar gyfer plant 5 oed.

Yn 11 oed, mae 71% o blant sy'n gymwys i gael FSM o gefndir Tsieineaidd yn cyrraedd y safonau disgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg.

Ffigur 2.6: Yn y flwyddyn ysgol 2022 i 2023, roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o gyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yn 11 oed.

Canran y myfyrwyr sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yn CA2 yn ôl statws anfantais a rhyw yn Lloegr, o flwyddyn academiaidd 2015 i 2016 i flwyddyn academiaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Aseidiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA2 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Diffinnir disgyblion difreintiedig yn rhai a gofrestrwyd a oedd yn gymwys ar gyfer FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd diwethaf, a phlant sy'n derbyn gofal gan yr ALI neu a adawodd ofal yr ALI yng Nghymru a Lloegr drwy fabwysiadu, gorchymyn gwarchodaeth arbennig, gorchymyn preswyllo neu orchymyn trefniadau plant.

Gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig

Yn ffigur 2.7 gwelwn batrwm tebyg yn y lefelau cyflawniad cyffredinol ar draws gwahanol ethnigrwydd fel y gwnaethom llynedd. Plant sy'n gymwys i gael FSM o ethnigrwydd Tsieineaidd yw'r gyfran uchaf sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig (71%) ac ethnigrwydd Sipsiwn neu Roma yw'r isaf (14%). O ystyried dosbarthiad daearyddol anwastad plant o ethnigrwydd gwahanol, gall fod effeithiau rhanbarthol yn y gwahanol ddeilliannau hyn, er enghraifft, 'effaith Llundain'. Un ffactor pwysig yn yr effaith hon yw presenoldeb niferoedd uchel o ddisgyblion sydd â chefnidir lleiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd metropolitan mor fawr.


Gwahaniaethau rhwng rhanbarthau

Mae Ffigur 2.8 yn dangos, ymhlith myfyrwyr sy'n gymwys i FSM, fod clwstwr cryf o berfformiad uchel yn Llundain, ond nid yng ngweddill y De-ddwyrain. Mae Tees Valley a Durham hefyd yn perfformio'n gryf. Gall fod rhywfaint o hyn yn gysylltiedig â'r canfyddiadau ar ethnigrwydd, fel y dangosir yn ffigur 2.7, yn yr ystyr y gall yr ethnigrwyddau sy'n perfformio orau fod yn fwy dwys yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o fod yn wir am Tees Valley a Durham.

Mae'r patrwm a welwyd yma yn gyson i raddau helaeth â chanfyddiadau llynedd, a lefel dda o ddatblygiad yn 5 oed. Mae hefyd yn gyson â'r hyn a elwir yn aml yn 'effaith Llundain'.

Ffigur 2.7: Mae canran y disgyblion FSM sy'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig erbyn 11 oed yn amrywio'n fawr yn ôl cefndir ethnig.

Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael yr FSM yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yn CA2 yn ôl ethnigrwydd yn Lloegr, ym mlwyddyn academiaidd 2022 i 2023.




Ffynhonnell: DfE. Aseidiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA2 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Diffinnir cymhwysedd FSM fel y'i casglwyd yng nghyfrifiad yr ysgol sy'n nodi a yw teulu plentyn wedi hawlio cymhwysedd. Gall rhieni hawlio FSM os ydynt yn derbyn rhai budd-daliadau. Mae Prydau Ysgol Am Ddim Babanod Cyffredinol a FSM ychwanegol a ddarperir yn Llundain yn rhaglenni ar wahân ac nid ydynt yn cyfrif tuag at y niferoedd hyn.

Ffigur 2.8: Disgyblion sy'n gymwys i gael FSM yn Llundain a Tees Valley a Durham yw'r rhai mwyaf tebygol o gyrraedd y safon ddisgwyliedig yn CA2.

Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael yr FSM yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yn CA2 yn ôl ITL2 yn Lloegr, ym mlwyddyn academiaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Aseidiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA2 yn Lloegr, 2022 i 2023.

Sylwer: Mae'r DfE yn dangos deilliannau ar gyfer pob ALI yn Lloegr. Mae'r data hyn wedi'u cyfuno i ranbarthau ITL2 trwy bwysoli deilliannau'r ALI yn ôl nifer y disgyblion ym mhob awdurdod.

Cyrhaeddiad yn 16 oed


Mae deilliannau addysgol person ifanc yn 16 oed yn helpu i lunio ei lwybr ymlaen at addysg uwch neu bellach (AU neu AB), hyfforddiant a chyflogaeth. Mae graddau da yn helpu i sicrhau swyddi da, ac yn bwysicaf oll, opsiynau i ddilyn nifer o wahanol lwybrau ar ôl addysg orfodol.

Mae Ffigur 2.9 yn dangos, yn gyffredinol, bod 45% o ddisgyblion (tua 275,000 o ddisgyblion) wedi ennill gradd 5 neu uwch mewn Saesneg

a Mathemateg (llinell lwyd). Mae hyn yn ostyngiad o 4.8 pwynt canran (o 49.8%) o'i gymharu â 2021 i 2022, ond mae'n dal i fod yn gynnydd o 1.8 pwynt canran (o 43.2%) o'i gymharu â 2018 i 2019. Fodd bynnag, roedd disgwyl rhywfaint o ostyngiad oherwydd newidiadau mewn dulliau asesu.³⁷ Am olwg fwy dibynadwy ar y gostyngiad hwn mewn perfformiad, gweler Ysgogwr 2.2, "Argaeledd addysg ysgol o ansawdd uchel".

Ffigur 2.9: Yn y flwyddyn ysgol 2022 i 2023, roedd gostyngiad yng nghyfran y disgyblion yn CA4a oedd yn cyflawni gradd 5 neu uwch mewn TGAU Saesneg a mathemateg, ac roedd y bwlch rhwng disgyblion difreintiedig a disgyblion eraill yn debyg i flynyddoedd blaenorol.

Canran y myfyrwyr sy'n llwyddo (gradd 5 neu uwch) mewn TGAU Saesneg a mathemateg yn ôl statws anfantais yn Lloegr, o flwyddyn academaidd 2018 i 2019 i flwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Asesiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA4 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Diffinnir disgyblion fel rhai dan anfantais os gwyddys eu bod wedi bod yn gymwys i gael FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd diwethaf (o flwyddyn 6 i flwyddyn 11), os cofnodir eu bod wedi derbyn gofal am o leiaf 1 diwrnod neu os cânt eu cofnodi fel rhai sydd wedi'u mabwysiadu o ofal. Mae'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd ysgol 2022 i 2023 yn seiliedig ar ddata diwygiedig. Mae'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd ysgol 2018 i 2019 a 2021 i 2022 yn seiliedig ar ddata terfynol. Dychwelodd asesiad blwyddyn 2021 i 2022 i gyfres arholiadau'r haf, ar ôl iddynt gael eu canslo yn 2020 a 2021 oherwydd effaith pandemig COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn sefydlwyd prosesau amgen i ddyfarnu graddau (asesu canolfannau a graddau asesu athrawon).

³⁷ Gwneir cymariaethau â 2022 ac â 2019. Mae'r gymhariaeth fwy ystyrlon â 2019, y flwyddyn ddiwethaf i arholiadau'r haf gael eu sefyll cyn y pandemig, wrth i 2023 ddychwelyd i'r graddau cyn y pandemig. Pwyll piau hi wrth ystyried cymariaethau dros amser, oherwydd efallai na fyddant yn adlewyrchu newidiadau ym mherfformiad disgyblion yn unig. Gall gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad hefyd adlewyrchu newidiadau yn y dull o raddio dros amser.

2. Symudedd Ers Lllynedd

Er mwyn edrych ar y cysylltiad rhwng SEB a'r deilliant cynnar hwn, rydym yn ystyried y lefelau cyrhaeddiad cyffredinol ar gyfer disgyblion difreintiedig a phob disgybl arall.³⁸ O ran cymariaethau grŵp, cyflawnodd 25% o ddisgyblion difreintiedig (tua 40,000 o ddisgyblion) radd 5 neu uwch yn y ddau bwnc, o'i gymharu â 52% o'r holl ddisgyblion eraill (tua 235,000

o ddisgyblion). Mae hwn yn fwllch o 27.2 pwynt canran, sy'n debyg i'r 2 flynedd flaenorol pan oedd y bwllch yn 27.4 a 27.5 pwynt canran. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos nad yw tua 119,000 o ddisgyblion difreintiedig a thua 213,000 o'r holl ddisgyblion eraill yn cyflawni gradd 5 neu uwch yn y ddau bwnc.³⁹



Ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023, roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o lwyddo mewn TGAU Saesneg a Mathemateg ar draws grwpiau difreintiedig a rhai nad oeddent dan anfantais.


³⁸ Diffinnir disgyblion yn rhai dan anfantais os gwyddys eu bod wedi bod yn gymwys i gael FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf (o flwyddyn 6 i flwyddyn 11), os cofnodir eu bod wedi derbyn gofal am o leiaf 1 diwrnod neu os cânt eu cofnodi yn rhai sydd wedi'u mabwysiadu o ofal.
³⁹ GOV.UK, "[National characteristics data](#)" from 'key stage 4 performance', 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS. SERVICE.GOV.UK.

Rydym hefyd yn adrodd ar fynegai bwllch anfantais CA4 ar gyfer ysgolion yn Lloegr, yn ffigur 2.10 Mae'r mynegai bwllch anfantais yn crynhoi'r cyrhaeddiad cymharol mewn TGAU Saesneg a mathemateg rhwng disgyblion difreintiedig a phob disgybl arall. Mae'n darparu mesur mwy gwydn o newidiadau dros amser mewn cyrhaeddiad y gallai diwygiadau TGAU a gyflwynwyd yn 2017 a newidiadau cysylltiedig i fesurau pennawd (er enghraifft, symud i ffwrdd o 5 TGAU neu fwy i sgoriau cyrhaeddiad 8 cyfartalog, lle mesurir perfformiad mewn set o 8 TGAU) fod wedi effeithio arnynt.⁴⁰

Yn 2022, wrth i arholiadau gael eu hailgyflwyno, parhaodd y mynegai bwllch anfantais i ehangu ac mae bellach ar ei lefel uchaf er 2012. Yn yr un modd â chanfyddiadau'r flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae'r ehangu hwn yn debygol o adlewyrchu effeithiau'r tarfu ar ddysgu a brofodd llawer o ddisgyblion yn ystod y pandemig.

Ffigur 2.10: Mae'r mynegai bwllch anfantais yn 16 oed wedi ehangu'n fwy, a hwn yw'r bwllch mwyaf ers blwyddyn academaidd 2011 i 2012.

Mynegai bwllch cyrhaeddiad anfantais ar gyfer Lloegr yn CA2, o flwyddyn academaidd 2010 i 2011 i flwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Aseidiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA4 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Mae'r mynegai bwllch anfantais yn crynhoi'r bwllch cyrhaeddiad cymharol (ar sail y graddau cyfartalog mewn TGAU Saesneg a mathemateg) rhwng disgyblion difreintiedig a phob disgybl arall. Mae'r mynegai yn rhestru'r holl ddisgyblion mewn ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn Lloegr ac yn gofyn a yw disgyblion difreintiedig fel arfer yn is na disgyblion nad ydynt dan anfantais. Byddai bwllch anfantais o 0 yn dangos bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn perfformioystal â disgyblion o gefndiroedd nad ydynt dan anfantais. Diffinnir disgyblion yn rhai dan anfantais os gwyddys eu bod wedi bod yn gymwys i gael FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf (o flwyddyn 6 i flwyddyn 11), os cofnodir eu bod wedi derbyn gofal am o leiaf un diwrnod neu os cânt eu cofnodi yn rhai sydd wedi'u mabwysiadu o ofal. Mae'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd ysgol 2022 i 2023 yn seiliedig ar ddata diwygiedig.

40 GOV.UK, 'Key stage 4 performance revised', 2024. Cyhoeddwyd yn EXPLORE-EDUCATION-STATISTICS.SERVICE.GOV.UK.


Gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched

Mae Ffigur 2.11 yn dangos cyfran y disgyblion sy'n llwyddo mewn TGAU Saesneg a Mathemateg yn ôl statws rhyw ac anfantais yn y flwyddyn ysgol 2022 i 2023. Yn gyffredinol, mae gan ferched os nad ydynt yn ddifreintiedig neu'n ddifreintiedig gyfraddau uwch o basio TGAU Saesneg a mathemateg na bechgyn. Llwyddodd 55% o ferched nad ydynt yn ddifreintiedig yn

y ddau bwnc, o'i gymharu â 50% ar gyfer bechgyn. Yn yr un modd, llwyddodd 27% o ferched difreintiedig yn y ddau bwnc o'i gymharu â 24% o fechgyn. Ar 28 pwynt canran, mae'r bwllch anfantais i ferched yn weddol debyg i'r bwllch i fechgyn, sydd â bwllch o 26 pwynt canran.

Ffigur 2.11: Ym mlwyddyn ysgol 2022 i 2023, roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o lwyddo mewn TGAU Saesneg a mathemateg beth bynnag oedd eu statws difreintiedig.

Canran y disgyblion a lwyddodd (gradd 5 neu uwch) mewn TGAU Saesneg a Mathemateg yn ôl statws anfantais a rhyw yn Lloegr, ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Aseidiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA4 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Diffinnir disgyblion yn rhai dan anfantais os gwyddys eu bod wedi bod yn gymwys i gael FSM ar unrhyw adeg yn ystod y 6 blynedd ddiwethaf (o flwyddyn 6 i flwyddyn 11), os cofnodir eu bod wedi derbyn gofal am o leiaf un diwrnod neu os cânt eu cofnodi yn rhai sydd wedi'u mabwysiadu o ofal. Mae'r ffigurau ar gyfer 2023 yn seiliedig ar ddata diwygiedig.

Gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig

Mae Ffigur 2.12 yn dangos cyfran y disgyblion sy'n gymwys i FSM ac sy'n llwyddo mewn TGAU Saesneg a mathemateg. Mae'r ffigur yn dangos amrywiad sylweddol rhwng y grŵp ethnig mwyaf difreintiedig (Sipsiwn neu Roma ar 3%) a'r grŵp ethnig sy'n perfformio orau (Tsieineaid yn 75%). At ei gilydd, mae gan ddisgyblion sy'n gymwys i FSM o ethnigrwydd De Asia (fel India a Bangladeshi) gyfraddau llawer uwch o gyflawni pas yn y ddau bwnc o'i gymharu â disgyblion Gwyn Prydeinig neu Gymysg Gwyn a Du Caribïaidd FSM cymwys (18% a 19%, yn y drefn honno).


Mae gwaith gan yr Athro Steve Strand ar gyfer Comisiwn Gwahaniaethau Hil ac Ethnig yn archwilio'r patrwm hwn o gyflawniad.⁴¹

Mae'n awgrymu y gallai rhai grwpiau lleiafrifol weld addysg yn ffordd o ddianc rhag tlodi, tra bod eraill yn llai optimistaidd, gwahaniaeth a allai fod yn gysylltiedig â statws 'gwirfoddol' neu 'anwirfoddol' y lleiafrif. Efallai fod grwpiau mewnfydwyr sydd wedi byw yn y DU ers amser maith, yn raddol, yn mynd yn llai optimistaidd. Mae patrymau mudo o wahanol wledydd hefyd yn wahanol – er enghraifft, mae ymfudwyr Indiaidd, yn aml, o statws economaidd-gymdeithasol uchel yn eu gwlad wreiddiol.

Er nad yw deilliannau plant SEB uchel yn cael eu hystyried yma, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau data, mae'n nodedig bod Strand yn dod o hyd i danberfformio cymharol ymhlith bechgyn Du Caribïaidd a Du Affrica, ac ymhlith merched Pacistanaidd, o gefndiroedd SEB uchel

Ffigur 2.12: Mae amrywiad mawr ar draws ethnigrwydd o ran cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael FSM.

Canran y disgyblion oedd yn gymwys i gael FSM a lwyddodd yn dda (gradd 5 neu uwch) mewn TGAU Saesneg a mathemateg yn ôl ethnigrwydd yn Lloegr, ym mlwyddyn academiaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Aseidiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA4 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Mae'r ffigurau ar gyfer 2023 yn seiliedig ar ddata diwygiedig. Diffinnir cymhwysedd FSM fel y'i casglwyd yng nghyfrifiad yr ysgol sy'n nodi a yw teulu plentyn wedi hawlio cymhwysedd. Gall rhieni hawlio FSM os ydynt yn derbyn rhai budd-daliadau.⁴²

41 Steve Strand, 'Ethnic, socio-economic and sex inequalities in educational achievement at age 16', 2021. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

42 Gweler canllawiau DfE am ragor o wybodaeth am gymhwysedd FSM, 'Early years foundation stage profile results', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK




Gwahaniaethau rhwng rhanbarthau

Mae ffigur 2.13 yn dangos patrwm daearyddol tebyg i ffigur 2.8, ac i'r hyn a adroddwyd llynedd. Yn benodol, gwelwn 'effaith Llundain' debyg, gydag ardaloedd trefol poblog eraill hefyd yn dangos canlyniadau da, fel Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Mae hefyd batrwm gweddol glir a chyson ar gyfer canrannau is o ddisgyblion sy'n gymwys i FSM mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr, megis Cernyw a Cumbria, gan lwyddo (gradd 5 neu uwch) mewn Saesneg a mathemateg. Mae clwstwr o berfformiad isel hefyd mewn ardaloedd eraill o'r Gogledd Orllewin, megis Swydd Gaerhirfryn a Swydd Gaer.

Ffigur 2.13: Disgyblion sy'n gymwys i FSM yn Llundain a Gorllewin Canolbarth Lloegr yw'r rhai mwyaf tebygol o lwyddo (gradd 5 neu uwch) mewn Saesneg a mathemateg ar lefel TGAU.

Canran y disgyblion oedd yn gymwys i gael FSM a lwyddodd (gradd 5 neu uwch) mewn TGAU Saesneg a mathemateg yn ôl ethnigrwydd yn Lloegr, ym mlwyddyn academiaidd 2022 i 2023.



Ffynhonnell: DfE. Aseidiadau cwricwlwm cenedlaethol yn CA4 yn Lloegr, 2023.

Sylwer: Mae'r DfE yn dangos canlyniadau ar gyfer pob ALI yn Lloegr. Mae'r data hyn wedi'u cyfuno i ranbarthau ITL2 trwy bwysoli canlyniadau'r ALI yn ôl nifer y disgyblion ym mhob awdurdod.



Sgiliau yn 15 oed

Nod PISA yw asesu gwybodaeth a sgiliau myfyrwyr mewn mathemateg, gwyddoniaeth a darllen. Mae'n defnyddio metrig y cytunir arno yn rhyngwladol i gasglu data gan fyfyrwyr, athrawon, ysgolion a systemau i ddeall gwahaniaethau perfformiad. Mae'r profion yn "archwilio pa mor dda y gall myfyrwyr ddatrys problemau cymhleth, meddwl yn feiriadol a chyfathrebu 'n effeithiol" yn 15 oed.⁴³ "Mae hyn yn rhoi cipolwg ar ba mor dda y mae systemau addysg yn paratoi myfyrwyr ar gyfer heriau bywyd go iawn a llwyddiant yn y dyfodol."⁴⁴

Sylwer: Cyfrifir dirprwy ar gyfer cyfleoedd gwaith gan yr ONS ar ffurf cymhareb nifer y di-waith (fel yr amcangyfrifir o'r LFS) o'i gymharu â nifer y swyddi gwag (fel yr amcangyfrifwyd yn yr Arolwg Swyddi Gwag) ac fe'i cyhoeddir yma fel y cilydd. Cyfrifwyd cymarebau gan ddefnyddio chwarter 4 (Hydref i Ragfyr) rhwng 2001 a 2023. Mae gwerth uwch yn dangos mwy o gyfleoedd i geiswyr gwaith.

65 Mae mesur dirprwy yn gynrychiolydd a ddefnyddir i amcangyfrif neu gynrychioli rhywbeth arall sy'n anodd ei fesur yn uniongyrchol.


66 Swyddfa Ystadegau Gwladol, 'Vacancy survey', 2021. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

Astudiaeth Achos

Hafsa Anwar

19, Manceinion,
Gogledd-orllewin Lloegr

Hafsa ydw i, prentis gradd technoleg blwyddyn gyntaf ar lwybr Ymgynghori Tech. Dwi o dras Bacistanaidd, a chefais fy magu yn Birmingham nes i mi symud i Fanceinion ym mis Medi 2023 am y cyfle hwn.



Dyweddodd fy nghefnder wrthyf am y llwybrau prentisiaeth gradd, felly gwnes ychydig o ymchwil a dod o hyd i un yn y diwydiant yr oedd gen i'r diddordeb mwyaf ynddo. Roedd peidio gorfod talu am fy ngradd yn ysgogiad mawr i mi - yn enwedig gyda chost ffioedd prifysgol yn dod mor uchel. Roedd ennill gradd a chymhwyster lefel 6, ochr yn ochr â 3 blynedd o brofiad yn y diwydiant yn swnio'n rhy dda i fod yn wir. Mae'r cyfle hwn yn fy rhoi i mewn lle da ar gyfer gweddill fy ngyrfa ac yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch i mi ar gyfer fy nyfodol Ac roedd ennill cyflog wrth ddysgu yn caniatáu i mi ddod yn annibynnol yn ariannol yn 18 oed.

Nawr bod gen i brofiad yn y diwydiant technoleg byddwn i wrth fy modd yn datblygu fy ngyrfa ac yn gweithio'n ymgynghorydd technoleg. Mae fy nghyflogwr yn rhoi cyfleoedd i brentisiaid gradd dechnoleg fod yn rhan o amrywiaeth o brosiectau gwahanol, gan ein galluogi ni i ddefnyddio a datblygu sgiliau gwahanol. Mae hyn wir yn ein helpu ni i ddarganfod beth rydym yn ei fwynhau a beth rydym yn dda am ei wneud, fel y gallwn ni ddechrau cynllunio lle hoffem arbenigo wrth i'n gyrfa fynd yn ei blaen.

Mae cael cymhwyster a phrofiad yn golygu fy mod eisoes wedi dechrau fy ngyrfa ac wedi dysgu sgiliau gwerthfawr mae eu hangen arnaf ac mae cyflogwyr yn chwilio amdany'n nhw. Mae gweithio'n amser llawn, astudio a chael cyfrifoldeb ariannol, wedi golygu fy mod i wedi aeddfedu'n gynt na rhai o fy nghyfoedion sydd efallai heb y lefel honno o gyfrifoldeb eto



Rwy'n dod o deulu dosbarth gweithiol, mewn ardal incwm isel iawn ac yn mynychu ysgolion heb eu hariannu yn ddigonol, ac felly wrth dyfu, doeddwn i byth yn meddwl y byddai cyfleoedd fel hyn yn agored i mi. Rwy'n angerddol am roi'r un cyfle i bobl eraill ag rwyf innau wedi elwa ohono, felly rwy'n gwneud yr amser i wirfoddoli mewn digwyddiadau i addysgu a hysbysu'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ar lwybrau i rolau fel fy un i.

"Mae'r cyfle hwn yn fy rhoi i mewn lle da ar gyfer gweddill fy ngyrfa ac yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch i mi ar gyfer fy nyfodol. Ac roedd ennill cyflog wrth ddysgu yn caniatáu i mi ddod yn annibynnol yn ariannol yn 18 oed."


Diweithdra ymhlith pobl ifanc

Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi amrywio'n sylweddol dros amser, gyda chynnydd mewn lefelau yn dilyn argyfwng ariannol 2008 a phandemig COVID-19. Ond, eleni, gwelwn welliannau clir o ran diweithdra. Bellach mae lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc yr isaf y maent wedi bod ers 2014, sef 11% yn 2022. Mae hyn yn golygu bod llawer llai o bobl ifanc yn dioddef effeithiau negyddol diweithdra.⁶⁷

Rydym yn gweld gwelliannau amlwg mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc gyda lefelau ar eu hisaf ers 2014, sef 11% yn 2022.

Ffigur 2.28: Cyfraddau diweithdra ymhlith pobl ifanc yw'r isaf y maent wedi bod ers 2014.

Canran y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn y DU, rhwng 2014 a 2022, a oedd yn ddi-waith.



Ffynhonnell: ONS, LFS, rhwng 2014 a 2022, data wedi'u pwysoli, ymatebwyr sy'n weithgar yn economaidd rhwng 16 a 24 oed, cyfyngau hyder 95%.

Sylwer: Mae'r LFS yn dilyn y diffiniad y cytunwyd arno yn rhyngwladol ar gyfer diweithdra a argymhellir gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol - un o asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig. Pobl ddi-waith yw'r rhai heb swydd, sydd wedi mynd ati i chwilio am waith yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf ac sydd ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf; neu sydd allan o waith, wedi dod o hyd i swydd ac yn aros i'w dechrau yn ystod y pythefnos nesaf. Mae'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn cael eu heithrio o'r cyfrifiadau (er enghraifft, mewn addysg amser llawn, gofalu am y cartref, neu'n barhaol sâl ac anabl). Mae'r data a ddefnyddir yn cael eu pwysoli gan ddefnyddio pwysau LFS person.

67 Mae ystadegau arbrofol diweddar (Tachwedd 2023 i Ionawr 2024) gan yr ONS yn awgrymu bod y gyfradd ddiweithdra yn uwch na'r amcangyfrifon o flwyddyn yn ôl (Tachwedd 2022 i Ionawr 2023) ond heb newid i raddau helaeth o'i gymharu â'r chwarter diweddaraf. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon hyn yn cyfrif am bawb sy'n 16 oed neu'n hŷn, ac nid dim ond pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Yn ogystal, dylid eu trin â gofal ychwanegol, o ystyried yr heriau parhaus â chyfraddau ymateb i'r LFS.

Cyfalaf cymdeithasol a chysylltiadau

Mae cyfalaf cymdeithasol yn cyfeirio at y cysylltiadau cymdeithasol a'r perthnasoedd sy'n deillio ohonynt, sy'n galluogi cymdeithas i weithredu'n dda. Mae rôl cyfalaf cymdeithasol mewn symudedd cymdeithasol yn llai dealladwy na rôl addysg neu waith. Fodd bynnag, awgrymwyd y gall hyrwyddo economi a chymdeithas fwy deinamig.

Ymgysylltiad dinesig


Mae cyfranogiad dinesig yn cael ei ddiffinio yn ymgysylltiad mewn prosesau democrataidd, yn bersonol ac ar-lein. Mae hyn yn cynnwys cysylltuâ swyddog lleol (megis cynghorydd

lleol neu AS), llofnodi deiseb, neu fynychu rali gyhoeddus (ond nid pleidleisio).

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod cyfranogiad dinesig yn parhau'n weddol sefydlog rhwng 2014 a 2021, er gwaethaf gostyngiadau yn ystod y blynyddoedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan bandemig COVID-19. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf, a ddangosir yn ffigur 2.29, yn datgelu gostyngiad arall. Yma, dywedodd 34% o'r ymatebwyr eu bod wedi cymryd rhan mewn rhywfath o gyfranogiad dinesig o leiaf unwaith yn ystod y 12 mis diwethaf; gostyngiad o'i gymharu â lefelau yn 2020 i 2021 (41%).⁶⁸

Ffigur 2.29: Rhwng 2014 a 2021, arhosodd cyfranogiad dinesig yn weddol sefydlog, ond gostyngodd yn 2022.

Canran yr oedolion sydd wedi cymryd rhan mewn prosesau democrataidd yn ystod y 12 mis diwethaf yn Lloegr, 9 mlynedd hyd at fis Mawrth 2022.



Ffynhonnell: Tabl C1, Arolwg Bywyd Cymunedol 2021 i 2022, Adran Diwylliant Cyfryngau a Chwaraeon.⁶⁹

Sylwer: Mae'r plot yn dangos canrannau oedolion a oedd yn ymwneud yn ddinesig. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â phrosesau democrataidd, yn bersonol ac ar-lein, gan gynnwys llofnodi deiseb neu fynychu rali gyhoeddus yn y 12 mis diwethaf. Nid yw hyn yn cynnwys pleidleisio. Cymerir data ar gyfer y 9 mlynedd ariannol hyd at fis Mawrth 2022. Mae cyfyngau hyder o 95% ar gael ar gyfer 2019 i 2020, 2020 i 2021, a 2021 i 2022 yn unig.

68 Mae'r cyfyngau hyder 95% yn cael eu nodi gan bariau gwall ar y siartiau. Maent yn dangos yr amrediad ein bod 95% yn hyderus bod y gwir werth i'r boblogaeth i'w chael rhyngddi. Pan nad oes gorgyffwrdd rhwng y bariau gwallau ar gyfer 2 neu fwy o grwpiau, gallwn ni fod yn fwy hyderus bod y gwahaniaethau rhwng grwpiau yn cynrychioli gwir wahaniaethau rhwng y grwpiau hyn yn y boblogaeth. I gael rhagor o wybodaeth gweler Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, 'Community life survey 2021/22: civic engagement and social action', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

69 Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, 'Community life survey 2021/22: civic engagement and social action', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

Amgylchedd sy'n ffafrio arloesedd a thwf

Mae arloesi a'i gymhwysiad masnachol wedi bod yn rhan annatod o strategaethau diwydiannol cenedlaethol ers amser maith. Gall seilwaith addysgol, technegol ac economaidd cefnogol feithrin twf economaidd lleol, gan annog buddsoddiad ac ehangu cyfleoedd proffesiynol a busnes yn yr ardal, a thrwy hynny gynnig llwybrau ar gyfer symudedd i fyny. Mae'r effaith ar symudedd cymdeithasol yn tueddu i fod yn anuniongyrchol, ond mae'n parhau i fod yn sylweddol. Mae'n hanfodol asesu'r amgylchedd arloesi a phenderfynu a all amgylchedd cefnogol wella twf a symudedd i fyny yn y dyfodol.

Mae tri dangosydd - cyflymder band eang, gwariant ymchwil a datblygu busnes (Ymchwil a Datblygu), ac addysg ôl-raddedig – yn adlewyrchu gwahanol gydrannau amgylchedd sy'n ffafriol i arloesi a thwf.

- 1 Mae cyflymder band eang yn nodi'r seilwaith technegol sy'n hanfodol i gwmnïau mewn sectorau uwch-dechnoleg. Gall diffyg y seilwaith hwn atal buddsoddiad a rhwystro cynhyrchiant.
2. Mae gwariant Ymchwil a Datblygu Busnes yn fuddsoddiad mewn cymhwyso a gweithredu arloesiadau, sy'n debygol o fod yn hanfodol ar gyfer twf economaidd.
3. Mae addysg ôl-raddedig yn adlewyrchu argaeledd cyfalaf dynol datblygedig sy'n gyrru arloesedd. Nid yw'r dangosydd hwn wedi'i gyfyngu i bynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM), gan y gall y dyniaethau hefyd chwarae rhan sylweddol yn y sectorau creadigol a'r cyfryngau.

Mae'r dangosyddion hyn yn cynrychioli gwahanol fewnbynnau a allai wella gweithgaredd busnes, yn enwedig mewn meysydd uwch-dechnoleg. Er mai ystadegau arbrofol yw'r rhain ac ni allwn gadarnhau cysylltiad achosol eto rhwng y dangosyddion hyn a photensial ardal ar gyfer arloesi, twf a symudedd i fyny, gallent ddechrau goleuo rôl arloesi wrth hyrwyddo symudedd cymdeithasol yn y DU.

Isod, rydym yn cyflwyno cyflymder band eang, wedi'i fesur yn ganran yr adeiladau sydd ag argaeledd gigabit ar y rhyngwrwd ers 2020.

Cyflymder band eang


Fel y dangosir yn ffigur 2.30, mae canran yr adeiladau sydd ag argaeledd gigabit ar y rhyngwrwd wedi cynyddu'n sydyn ledled y DU ers 2020.

Yn rhan o'n gwaith, rydym am ddeall y berthynas rhwng amgylcheddau arloesol a symudedd cymdeithasol i fyny.



Ffigur 2.30: Ar draws holl wledydd y DU, mae canran y safleoedd sydd ag argaeledd gigabit ar y rhyngwyd wedi cynyddu'n sydyn er 2020.

Canran y safleoedd (gan gynnwys eiddo preswyl a busnes) sydd ag argaeledd gigabit.



Ffynhonnell: Adroddiad y Swyddfa Gyfathrebu (Ofcom), Connected Nations Report (2023 (2023)).⁷⁰

Sylwer: Mae data'n cynrychioli canran y safleoedd (gan gynnwys safleoedd preswyl a busnes) sydd â gallu gigabit ym mhob un o wledydd y DU. Casglwyd data ym mis Medi bob blwyddyn.

⁷⁰ Data a dynnwyd gan Ofcom, 'Connected nations 2023: interactive report', 2024. Cyhoeddwyd yn OFCOM.ORG.UK.

Astudiaeth Achos

Carolyn Jay

52, Swydd Hampshire,
De-ddwyrain Lloegr

Rheolwr cymunedol a lle, Ringway

Does neb yn deffro yn y bore ac yn meddwl 'dwi'n gwybod, fydda i'n mynd i weithio mewn priffyrdd.' Ond mae ganddo fanteision mawr. Mae'n sefydlog iawn gan y bydd angen trwsio ein ffyrdd bob amser.

Mae gan Ringway gontract am 10 mlynedd yn Surrey ac mae angen i ni sicrhau bod gennym bobl y gallwn ni eu cyflogi. Mae diffyg cenedlaethol o weithwyr tir ond yn enwedig felly yn y De-ddwyrain gan ei fod yn ardal o gyflogaeth uchel a galw mawr.

Ar ôl gwneud ychydig o waith mewn ysgolion sylweddolais fod bwllch yn y lle 16-i-18. Rydych chi'n tueddu i golli llawer o bobl ifanc ar yr adeg honno. Pan oeddwn i'n cael sgwrs â Surrey Careers Hub dywedon nhw y dylai Ringway sefydlu cwrs. Doedd gen i ddim syniad bod hyn yn bosibl!

Dyweddodd hi, dwi'n credu mai Coleg Nescot Surrey yw eich partner gorau, gadewch i ni drefnu cyfarfod. Es i ar alwad Teams a chanfod bod tua 12 o bobl o Nescot yn eistedd o gwmpas bwrdd. Gallwn i weld yn syth pa mor werthfawr oedd hynny iddyn nhw.

Roeddwn i'n mynnu nad oeddem ni'n dibynnu ar fathemateg a Saesneg yn ofyniad. Mae'n gorfodi rhai pobl ifanc allan o'r system. Roedd Ringway am iddo fod yn gwrs ymarferol wedi'i anelu at bobl ymarferol nad ydyn nhw am fod mewn ystafell ddsbarth neu y tu ôl i ddesg.



Mae'r model yn mynd i fod yn ddau gwrs annibynnol blwyddyn o hyd a gyflwynir yng nghyfadrannau adeiladu Nescot gan ddefnyddio cwricwlwm adeiladu achrededig y maent wedi'i addasu i briffyrdd. Bydd Ringway yn cefnogi ymgysylltu â chyflogwyr. Byddwn yn mynd â'r myfyrwyr i safle byw ac yn trefnu bod goruchwylwr yn siarad am yr hyn sy'n digwydd ac yn rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau. Byddant yn cael hyfforddiant ymarferol ar y cwrs. Byddant yn gwneud pethau megis gosod brics a gosod slabiau ac rydym am roi ymdeimlad i bobl ifanc o'r peiriannau cyffrous rydym yn gweithio gyda nhw.

Cynhaliodd Nescot y diwrnod recriwtio cyntaf ym mis Ebrill ac mae un o'r blynyddoedd eisoes yn llawn. Y gobaith yw y byddwn ni'n gallu trefnu pobl ar gyfer prentisiaethau. Nod Ringway yw cyflogi pobl o ddiwedd y cwrs hwn ond mae cwmnïau ffibr, dŵr a nwy a fydd yn gallu defnyddio cymwysterau fel hyn, yn enwedig yn Surrey lle mae llawer o waith adeiladu a llawer o ffyrdd.

Mae Ringway wedi addo cyfweld ag unrhyw un sy'n cwblhau blwyddyn 13. Mewn blwyddyn neu ddwy, byddwn wrth fy modd yn ymgymryd â phobl sydd wedi gwneud cymhwyster fel hyn, ac sydd ag ymrwymiad i weithio mewn priffyrdd a syniad clir o'r hyn y mae'n ei olygu.

Julie Kapsalis

46, Swydd Hampshire,
De-ddwyrain Lloegr

Pennaeth a Phrif Weithredwr Nescot
(Coleg Technoleg Gogledd-ddwyrain Surrey)

Mae'r rhaglen Pathways to Highways yn enghraifft wych o 3 sefydliad yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â chyfle ac angen: Nescot, fel coleg AB, Ringway yn gyflogwr lleol mawr a Chyngor Sir Surrey, sy'n contractio gyda Ringway ar gyfer gwaith priffyrdd ac sydd hefyd â blaenoriaeth o ran symudedd cymdeithasol.

Yr hyn a welaf yn aml yn digwydd yn y sefyllfaoedd hyn yw bod llawer o fwriadau mawr ac amcanion a rennir ond rywsut nid yw'n llwyddo i ddechrau. Yr hyn rwy'n falch iawn ohono am y prosiect hwn yw yn eithaf cyflym rydym wedi dod at ein gilydd i gael rhywbeth oddi ar lawr gwlad ac ymhen ychydig fisoedd bydd gennym fyfyrwyr ar 2 gwrs newydd, cwrs lefel 1 a chwrs lefel mynediad mewn sgiliau adeiladu ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd.

Mae Ringway wedi bod yn wych am ddod i ddigwyddiadau diwrnod agored, gan ddod â phob math o ddarnau anhygoel o offer a cherbydau, oherwydd mewn gwirionedd mae hynny'n ysbrydoli pobl ifanc i ddeall a ydych chi'n mynd i fynd ar y rhaglen honno dyma'r math o waith y byddwch chi'n ei wneud.

Rydym hefyd yn ffodus iawn, trwy ein gwaith gyda sefydliadau gyrfaedd, eu bod yn gallu mynd allan trwy eu rhwydweithiau i ysgolion lleol. Mae'n ymwneud â rhoi llwybr arall i bobl ifanc efallai nad ydynt wedi bod yn ei ystyried.



Lle rydym wedi ein lleoli yn Surrey, un o'r heriau yw bod pobl ifanc sydd wedi bod i'r ysgol yma yn cael eu denu gan fyw a gweithio yn Llundain neu ddinas fawr. Wrth gwrs, bydd pobl yn gwneud pob math o benderfyniadau yn seiliedig ar amrywiaeth o amgylchiadau personol ond o safbwynt Surrey yn sir mae angen i bobl aros yn y rhanbarth a chyflawni swyddi mewn pob math o sectorau.

Un o'r rhwystrau yw bod Surrey yn sir ddrud iawn i fyw ynddi a dyna pam rydym yn colli pobl weithiau, felly pan fydd gennych chi gyrsiau lle mae llwybr dilyniant a deiliant i swydd lle rydych chi'n gwybod beth fydd y cyflog, yn aml mae hynny'n helpu pobl a allai fod yn meddwl: Ydw i'n gallu aros yma?

Rydym wedi bod yn ffodus bod Nescot, drwy'r Gronfa Gwella Sgiliau Lleol, wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol mewn ystafelloedd trochi sy'n cynnwys efelychwyr fel y gall pobl ifanc ar y cwrs hwn gael y sgiliau a'r wybodaeth sylfaenol sy'n hanfodol i'r swyddi hyn cyn y gallant yrru car neu beiriannau arbenigol yn gyfreithiol. Rydym am i'r dysgwyr gael eu hysbrydoli gan mai'r sianeli marchnata gorau fydd y bobl ifanc ar y cwrs eu hunain yn dweud wrth eu ffrindiau a'u teulu am eu profiad.

3. Symudedd ar Draws y DU



Wedi'i amlygu

- Rydym wedi datblygu mynegeion cyfansawdd newydd o ddeilliannau canolradd (deilliannau symudedd yn gynharach mewn bywyd), ac ysgogwyr (galluogwyr symudedd), ar lefel awdurdod lleol (ALII).⁷¹
- Bellach mae gennym un mynegai cyfansawdd ar gyfer deilliannau canolradd ar lefel uchaf ALI.⁷² Mae hyn yn rhoi 203 o ranbarthau daearyddol i ni ledled y DU, yn lle'r 41 rhanbarth a gawsom llynedd. Mae'r mynegai hwn, o'r enw Rhagolygon Addawol, yn cwmpasu'r cymwysterau uchaf, enillion bob awr, a galwedigaethau proffesiynol a dosbarth gweithiol pobl ifanc.
- Yn gyffredin â gwaith arall ar y pwnc, rydym wedi canfod bod gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol lefelau symudedd tebyg, gydag ychydig ar y pen uchaf a'r gwaelod. Mae'r ardaloedd mwyaf ffafriol yn tueddu i fod yn Llundain neu yn y Siroedd Cartref cyfagos.
- Yn yr un modd, rydym wedi datblygu 3 mynegai cyfansawdd newydd o ysgogwyr ar lefel ALI haen uchaf, gan roi'r un 203 o ranbarthau daearyddol.
- Gelwir y mynegai cyntaf yn seiliedig ar ysgogwyr yn Amgylchiadau Plentyndod. Mae hyn yn cynnwys tlodi plentyndod, addysg rhieni, galwedigaeth dosbarth gweithiol rhieni a galwedigaeth broffesiynol rhieni. Mae'r cyflyrau mwyaf ffafriol yn ystod plentyndod i'w gweld mewn ardaloedd cefnog, Llundain Fwyaf a'r Siroedd Cartref yn bennaf, ond hefyd rhannau o'r Gogledd a'r Alban.
- Yr ail fynegai sy'n seiliedig ar ysgogwyr yw Cyfleoedd y Farchnad Lafur i bobl ifanc. Mae hwn yn cynnwys diweithdra, cyflogaeth broffesiynol, a chyflogaeth dosbarth gweithiol pobl ifanc. Mae'r canlyniadau'n debyg, er bod yr ALlau sydd â'r cyfleoedd llai ffafriol i bobl ifanc yn tueddu i fod yng Ngogledd-Ddwyrain a Gogledd-orllewin Lloegr, yn ogystal ag ardaloedd diwydiannol a phorthladdoedd hŷn.
- Rydym wedi cadw ein mynegai cyfansawdd sy'n edrych ar ymchwil a datblygu (Ymchwil a Datblygu), ond wedi ei wella fel ei fod hefyd yn rhoi rhanbarthau 203 i ni. Mae'r mynegai hwn bellach yn cael ei alw'n Arloesi a Thyfu. Mae'r ardaloedd mwyaf ffafriol yn cael eu clystyru o amgylch Llundain, yn bennaf yn Ne Lloegr, ond mae ambell ardal arall yn sgorio'n dda ar y mynegai hwn.

⁷¹ Mae mynegeion cyfansawdd yn crynhoi nifer o yrwyr neu ddeilliannau canolradd mewn un sgôr. Maent yn rhoi crynodeb i ni o sut mae gwahanol ardaloedd daearyddol y DU yn cymharu ar y prif ddimensiynau symudedd yr ydym wedi'u nodi o'r data.

⁷² Mewn rhai ardaloedd yn Lloegr, rhennir llywodraeth leol rhwng cyngor sir (haen uchaf) a chyngor dosbarth (haen is), sy'n gyfrifol am wahanol wasanaethau. Mewn ardaloedd eraill, mae un awdurdod lleol unedol yn lle hynny.

Mae ein fframwaith mesur wedi dangos bod gwahaniaethau mewn cyfleoedd symudedd i bobl o wahanol gefndiroedd, er enghraifft, ac addysg rhieni, galwedigaeth ac ethnigrwydd yn chwarae rolau pwysig. Ond mae sylweddoliad cynyddol y gall daearyddiaeth - lle mae pobl yn tyfu - hefyd effeithio ar gyfleoedd symudedd. Dyma pam y gwnaethom gyflwyno dadansoddiadau daearyddol o gyfleoedd symudedd ac ysgogwyr yn adroddiad llynedd.

Fodd bynnag, gallai edrych ar ddadansoddiadau daearyddol dangosyddion sengl symudedd cymdeithasol, megis diweithdra neu gymhwyster uchaf, fod yn gamarweiniol, am ddau reswm. Yn gyntaf, rhaid amcangyfrif y canlyniadau o arolygon sampl, a gall maint y sampl ar lefel ranbarthol neu leol fod yn fach. Yn ail, mae angen i ni gymryd golwg gyfannol ar amgylchiadau mewn ardal, yn hytrach na defnyddio un dangosydd yn unig, ni waeth pa mor ddibynadwy.

I ddelio â'r problemau hyn, fe wnaethom gyflwyno 5 mesur cryno llynedd (mynegeion cyfansawdd). Roedd y rhain yn rhoi cipolwg ar sut roedd rhanbarthau yn perfformio ar draws amrediad o ddangosyddion. Roedd dau o'r mynegeion hyn yn seiliedig ar ddeilliannau canolradd a'r 3 arall ar ysgogwyr, a phob mynegai yn cynnwys 3 mesur sylfaenol. Rhoddodd y rhain ddarlun llawer mwy dibynadwy o'r hyn oedd yn mynd yn dda, a beth gellid ei wella, ledled y DU.

Gan ddefnyddio'r mynegeion hyn, dysgom fod Llundain Fwyaf a rhai ardaloedd cyfagos yn sefyll allan yn lleoedd lle mae pobl ifanc yn gwneud yn arbennig o dda. Roedd rhywun oedd yn tyfu yn Llundain yn fwy tebygol o gael rhagolygon addawol - ennill cymwysterau uwch, enillion uwch a swydd broffesiynol - na rhywun o'r un cefndir economaidd-gymdeithasol (SEB) gafodd ei fagu mewn ardal fwy gwledig neu anghysbell. Fodd bynnag, roedd eu risg o wynebu sefyllfaoedd ansicr megis diweithdra, anweithgarwch economaidd a chyflogaeth dosbarth gweithiol is hefyd yn uwch yn Llundain.

Gall lle mae pobl yn tyfu hefyd effeithio ar gyfleoedd symudedd. Dyma pam y gwnaethom gyflwyno dadansoddiadau daearyddol o gyfleoedd symudedd ac ysgogwyr yn adroddiad llynedd.

Eleni, rydym wedi cynyddu nifer yr ardaloedd o 41 i 203. Mae hyn yn cynyddu grym gronynnol ac ystadegol ar gyfer ymchwilio pam mae ardaloedd yn wahanol yn eu rhagolygon symudedd.



Mesur symudedd cymdeithasol mewn awdurdodau lleol

Dull newydd o fonitro symudedd cymdeithasol fesul awdurdod lleol

Rydym wedi adeiladu ar y gwaith hwn trwy adeiladu mynegai cyfansawdd o ragolygon symudedd ar lefel AL, yn lle'r lefel ranbarthol (Lefel Diriogaethol Ryngwladol 2, ITL2) a ddefnyddiwyd gennym llynedd.^{73 74} Trwy symud o ITL2 i lefel ALI haen uchaf, rydym wedi cynyddu nifer yr ardaloedd o 41 i 203. Mae hyn yn cynyddu grym gronynnol ac ystadegol ar gyfer ymchwilio pam mae ardaloedd yn wahanol yn eu rhagolygon symudedd. Yn ogystal, mae'r math hwn o ddadansoddiad yn cyd-fynd yn nes â chyfrifoldebau polisi nag unrhyw ddadansoddiadau eraill yn ITL, gan fod gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb am wasanaethau lleol, gan gynnwys ysgolion a gynhelir.

Mynegai cyfansawdd newydd ar gyfer y deilliannau canolradd

Fel mynegai cyfansawdd blaenorol Rhagolygon Addawol, mae'r mynegai newydd yn seiliedig ar 3 deiliant canolradd (4 mesur): y cymhwyster uchaf, lefel alwedigaethol, ac enillion fesul awr ymhlith pobl ifanc yn y DU. Fel gyda'r holl ddeilliannau canolradd, rydym yn rheoli ar gyfer SEB. Mae hyn yn golygu bod y mynegai newydd yn nodi'r ALLau lle mae'r bobl ifanc a fagwyd yno yn gwneud yn well (neu'n waeth) na phobl â'r un SEB a fagwyd mewn mannau eraill. Dylem feddwl am y mynegai hwn fel un sy'n darparu mesur o gyfleoedd symudedd absoliwt, nid o symudedd cymharol.⁷⁵

73 Cod a ddefnyddir i rannu'r Deyrnas Unedig yn ddaearyddol at ddibenion ystadegol. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, '[Territorial levels UK, international territorial levels](#)', 2021. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

74 Yn anffodus, nid yw ein ffynhonnell ddata, yr LFS, yn ein galluogi i wneud unrhyw wahaniaeth yng Ngogledd Iwerddon, yr ydym yn ei drin yn un uned. Rydym wedi ailadrodd ein dadansoddiadau gan ddefnyddio mesur ITL3 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n amcangyfrif i Awdurdodau Lleol, ond mae'n well gennym ddangos canlyniadau i Awdurdodau Lleol gan fod y rhain yn fwy perthnasol i lunwyr polisi a rhanddeiliaid.

75 Gweler y diffiniadau ar gyfer symudedd absoliwt a pherthynas yn adroddiad Cyflwr y Wlad 2023, '[State of the Nation 2023: people and places/ chapter 2 mobility outcomes](#)', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

Tabl 3: Crynodeb o fynegeion cyfansawdd ar gyfer y deilliannau canolradd eleni.

Mynegai	Dangosydd	Data LFS a ddefnyddir
Rhagolygon Addawol	IN2.3 Cymhwyster uchaf (gradd prifysgol)	Lefelau net gradd prifysgol ymhlith pobl ifanc ym mhob ardal ar ôl rheoli ar gyfer SEB
	IN3.3a Lefel alwedigaethol (galwedigaeth broffesiynol)	Cyfrannau net o bobl ifanc mewn swyddi dosbarth proffesiynol ym mhob ardal ar ôl rheoli ar gyfer SEB
	IN3.3b Lefel alwedigaethol (galwedigaeth dosbarth gweithiol)	Cyfrannau net o bobl ifanc nad ydynt mewn swyddi dosbarth gweithiol ym mhob ardal ar ôl rheoli ar gyfer SEB
	IN3.4 Enillion yr awr	Enillion cymedrig yr awr ymhlith pobl ifanc ym mhob ardal ar ôl rheoli ar gyfer SEB

Fe wnaethon ni gyfuno Arolygon Gweithlu Llafur (LFS) o sawl blwyddyn, gydag ardaloedd yn seiliedig ar ble roedd yr ymatebydd yn byw pan oedd yn 14 oed. Fodd bynnag, mae gan ardaloedd ALI feintiau sampl llawer llai na'r ardaloedd ITL2 (sy'n fras i grwpiau o tua 4 o ALIau haen uchaf) a ddefnyddiwyd gennym yn ein hadroddiad llynedd.⁷⁶ Felly rydym wedi gwneud newidiadau amrywiol i wella cywirdeb yr amcangyfrifon. Rydym hefyd wedi newid y fethodoleg i ddarparu sylfaen ystadegol gryfach.⁷⁷

Cynyddu cywirdeb yr amcangyfrifon

I wneud iawn am y meintiau sampl llawer llai ar lefel LA nag ar ITL2, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol:

- Rydym wedi ychwanegu un flwyddyn ychwanegol o ddata, fel ein bod bellach yn defnyddio data LFS cyfun ar gyfer 2018 i 2022.
- Rydym wedi ehangu'r categorïau dosbarth cymdeithasol trwy uno'r dosbarthiadau gwaith uwch ac isaf, a'r dosbarthiadau proffesiynol uwch ac is.
- Rydym wedi ychwanegu un dangosydd ychwanegol at y mynegai. Rydym bellach yn cynnwys swydd dosbarth gweithiol yn y mynegai yn ychwanegol at y dangosydd dosbarth proffesiynol a ddefnyddiwyd gennym o'r blaen. O ganlyniad, bellach nid ydym yn adrodd ar y mynegai cyfansawdd 'sefyllfaoedd ansicr' o'r llynedd.
- Rydym wedi ehangu amrediad oedran pobl ifanc o 25 i 29 oed i 25 i 44 oed. Mae hyn yn cynyddu maint y sampl gan ffactor o 4.

⁷⁶ Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Cyflwr y wlad 2023: pobl a lleoedd', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

⁷⁷ I gynhyrchu'r mynegai hwn, rydym yn dibynnu'n bennaf ar dechneg o'r enw dadansoddiad prif gydran (PCA). Mae'r dechneg hon yn distyllu sawl newidyn cydberthynol yn un dimensiwn sy'n gysylltiedig â'r swm mwyaf o amrywiad yn y deilliannau o ddiddordeb. Gweler ein hatodiad technegol am ragor o wybodaeth.



Dylem bwysleisio, hyd yn oed gyda'r newidiadau hyn, fod rhai ALLau yn aros lle mae maint y sampl yn fach iawn; mewn rhai achosion, mae'n llai na 50 o ymatebwyr. Yn yr achosion hyn, ni allwn fod yn sicr a yw'r ALI yn dangos rhagolygon gwell, rhagolygon cyfartalog neu ragolygon tlotach.

Fel y mae gwaith blaenorol wedi'i ddangos, mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd ALI gyfleoedd symudedd tebyg i'r bobl a fagwyd ynddynt.^{78 79} Gan ein bod yn adrodd amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata'r arolwg, nid yw'r amcangyfrifon yn ddigon manwl gywir i roi trefn restrol o ALLau. Yn hytrach, y prif ddi-ddordeb yw pa ardaloedd sy'n perthyn i ddwy 'gynffon' nodedig y dosbarthiad: yr ALLau sydd â'r sgoriau mwyaf ffafriol a lleiaf.

Yn ein canfyddiadau, mae nifer o ALLau bach iawn, sydd â meintiau sampl cymharol fach. Yn yr achosion hyn, ni allwn fod yn hyderus am eu sefyllfa yn y dosbarthiad. Efallai eu bod dan anfantais neu fel arall â mantais fawr, yn hytrach na'r cyfartaledd neu'n agos at y canol, ond ni allwn fod yn sicr y naill ffordd na'r llall. Yr ALLau sydd â'r meintiau sampl lleiaf yw Clackmannanshire (45), Dwyrain Swydd Renfrew (40), Hammersmith a Fulham (43), Kensington a Chelsea (26), Midlothian (41), Na h-Eileanan Siar (27 – Yr Hebrides Allanol), Rutland (33), Ynysoedd Erch (19), Ynysoedd Shetland (28) a Westminster (37). Dylem hefyd nodi nad yw'r LFS yn caniatáu inni wahaniaethu rhwng Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Iwerddon, yr ydym felly'n eu trin yn un endid

Mynegeion cyfansawdd ar gyfer ysgogwyr symudedd cymdeithasol

Rydym wedi gwneud sawl newid i'r mynegeion cyfansawdd ar gyfer yr ysgogwyr. Yn adroddiad llynedd fe wnaethom gynnwys 3 elfen gyfansawdd yn ITL2: mantais gymdeithasol-ddiwylliannol, tlodi plentyndod ac anfantais, ac Ymchwil a Datblygu.⁸⁰

Gwnaethom archwilio a allem adeiladu pethau cyfwerth â'r 2 fynegai cyntaf ar lefel ALI. Ar gyfer y 2 fynegai cyntaf, rydym wedi defnyddio'r un dangosyddion i raddau helaeth ag yn ein hadroddiad Cyflwr y Genedl 2023, ond rydym wedi gwneud ychydig o newidiadau, yn gyson â'r rhai a ddisgrifir yn yr adran flaenorol. Yn gyntaf, rydym wedi ehangu'r amrediadau oedran ar gyfer rhai dangosyddion i gynyddu maint y sampl. Er cysondeb â'r mynegai newydd o ddeilliannau canolradd, rydym hefyd yn cynnwys canran y bobl ifanc sydd â galwedigaeth dosbarth gweithiol yn ddangosydd ychwanegol o sefyllfa'r farchnad lafur sy' n wynebu pobl ifanc. Ar gyfer y mynegai Amgylchiadau Plentyndod, rydym wedi ychwanegu addysg rhieni a swyddi proffesiynol, ac wedi hepgor diweithdra ieuencid. Dangosir y rhestr o ddangosyddion a ddefnyddir eleni yn nhabl 3.1.

78 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'The long shadow of deprivation: differences in opportunities across England', 2020. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

79 Richard Breen a Jung yn, 'Regional variation in intergenerational social mobility in Britain', 2024. Cyhoeddwyd yn ONLINELIBRARYWILEY.COM.

80 Comisiwn Symudedd Cymdeithasol, 'Cyflwr y wlad 2023: pobl a lleoedd', 2023. Cyhoeddwyd yn ONS.GOV.UK

Tabl 3.1: Crynodeb o fynegeion cyfansawdd ar gyfer yr ysgogwyr (DR) eleni.

Mynegai	Dangosydd	Data a ddefnyddir
Amgylchiadau plentyndod	Ysgogwyr (DR) 1.2 Tlodi plentyndod	% o blant mewn tlodi cymharol (Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac Aelwydydd Islaw Ystadegau Incwm Cyfartalog (HBAI), blynyddoedd cronol 2018 i 2022)
	DR 1.3 Dosbarthiad addysg rhieni	% o deuluoedd (gyda phlentyn dibynnol) sy'n cynnwys rhiant graddedig neu oedolyn (ar y cyd rhwng 2014 a 2022)
	DR 1.4a Dosbarthiad meddiannaeth rhieni (proffesiynol)	% o deuluoedd sydd â rhiant neu oedolyn proffesiynol (cronol rhwng 2014 a 2022)
	DR 1.4b Dosbarthiad galwedigaeth rhieni (dosbarth gweithiol)	% o deuluoedd sydd â rhiant neu oedolyn dosbarth gweithiol (cronol rhwng 2014 a 2022)
Cyfleoedd Marchnad Lafur i bobl ifanc	DR 3.2 Diweithdra ymhlith pobl ifanc	% o bobl ifanc mewn cyflogaeth (cronol rhwng 2014 a 2022)
	DR 3.3a Math o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc (proffesiynol)	% o bobl ifanc â galwedigaeth broffesiynol (cronol rhwng 2014 a 2022)
	DR 3.2b Math o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc (dosbarth gweithiol)	% o bobl ifanc â galwedigaeth dosbarth gweithiol (cronol rhwng 2014 a 2022)
Arloesi a Thwf	DR 5.1 Cyflymder band eang	% o safleoedd sydd â band eang galluog i dderbyn gigabitau (Ofcom)
	DR 5.2 Gwariant Busnes ar Ymchwil a Datblygu	Gwariant busnes fesul 100,000 o bobl ar ymchwil a datblygu
	DR 5.3 Addysg ôl-raddedig	% o bobl oedran gweithio (25 i 64 oed) sydd ag addysg ôl-raddedig (LFS cronol 2014 i 2022)

Gweler ein hatodiad technegol ar-lein am gyfrif manwl o'n methodoleg.

Canlyniadau

Deilliannau canolradd: rhagolygon addawol


Mae'r mynegai hwn yn dwyn ynghyd 4 mesur sy'n cyfleu rhagolygon addawol i bobl ifanc, fel y'u mesurir gan eu lefelau addysg, swyddi galwedigaethol ac enillion. Mae'r mynegai yn addasu ar gyfer SEB, ac yn mesur pa mor dda y mae pobl ifanc o gefndiroedd tebyg yn ei wneud mewn addysg a'r farchnad lafur.

Yn nhabl 3.3 rydym yn rhestru'r ALLau sydd â'r deilliannau mwyaf ffafriol, ffafriol, agos at gyfartaledd, anffafriol a lleiaf ffafriol. O fewn pob un o'r bandiau a restrir rydym yn rhoi'r enwau yn nhrefn yr wyddor, gan y byddai'n gamarweiniol

i'w trefnu fesul safle, o ystyried diffyg manylder yr amcangyfrifon. Gan fod y dosbarthiad yn cael ei ogwyddo tuag at ddeilliannau mwy ffafriol, rydym yn dangos 32 o Awdurdodau Lleol sydd â'r deilliannau mwy ffafriol a 22 o Awdurdodau Lleol sydd â'r canlyniadau llai ffafriol (sy'n cyfateb i'r ddwy gynffon a ddangosir yn ffigur 3.2). Mae'n rhaid pwysleisio hefyd fod mwy o ansicrwydd ynglŷn ag aelodaeth y bandiau 'ffafriol' a'r bandiau 'anffafriol' nag am y bandiau 'mwyaf ffafriol' a 'lleiaf ffafriol'.

Ffigur 3.2: Mae gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol sgoriau yn y canol neu'r cyfartaledd ar fynegai Rhagolygon Addawol ond mae dwy gynffon sydd â rhagolygon arbennig o ffafriol neu anffafriol.

Mae sgoriau ALLau ym mynegai cyfansawdd Rhagolygon Addawol, sy'n cwmpasu 4 deiliant canolradd. Dangosir ALLau sydd â deilliannau bron ar gyfartaledd mewn llwyd.



Ffynhonnell: LFS, rhwng 2018 a 2022. Data ffynhonnell a ddefnyddir o'r dangosyddion canlynol: deilliannau canolradd 2.3, 3.3a, 3.3b a 3.4.

Sylwer: Mae'r histogram yn dangos dosbarthiad y sgoriau ar gyfer yr ALLau unedol ac haen uchaf lle'r oedd ymatebwyr yn byw pan oeddent yn 14 oed. Am ragor o wybodaeth am sut y sgoriwyd pob ALI gweler yr atodiad technegol.

Astudiaeth Achos

Conor Warren

18, CS Dyfnaint,
De-orllewin Lloegr

Cefais fy magu yn Tiverton yng nghanol Dyfnaint. Ym Mlwyddyn 6 ysgarodd fy rhieni. Symudais i a fy chwaer o ganol Dyfnaint i ogledd Dyfnaint gyda fy mam sy'n athrawes. Pan o'n i'n iau, o'n i'n gyfforddus ond ar ôl i fy rhieni wahanu, roedd rhaid i ni fod ychydig yn fwy gofalus.

Fe wnes i wir fwynhau'r ysgol. Fe es i gymaint o glybiau gwahanol ag y gallwn i. Roeddwn i'n brif fachgen. Fe wnes i'n iawn yn fy arholiadau TGAU, ddim yn anhygoel, ond fe wnes i grafu pasio. Roedd yn well gen i'r agweddau cymdeithasol.

Pan oeddwn i'n 14 oed, sefydlais fy sefydliad iechyd meddwl fy hun. Ro'n i a grŵp o ffrindiau yn cwyno am y system iechyd meddwl a sut brofiad fyddai hi mewn gair delfrydol. A dyma ni'n meddwl pam ydyn ni'n dweud "mewn byd delfrydol"? Pam nad ydyn ni'n gwneud iddo ddigwydd? Dechreuon ni greu adnoddau fel taflenni gwaith a sleidiau PowerPoint ar bynciau gan gynnwys gorbryder a hunanofal. Bellach mae gennym dros 300 o ysgolion yn defnyddio ein hadnoddau. Fe wnaethon ni hefyd greu ymgyrch galendr adfent ddigidol o amgylch iechyd meddwl gydag enwogion megis Judi Dench, Emma Thompson a Stephen Fry yn rhoi cyngor.



Ar ôl fy TGAU, penderfynais aros ymlaen yn y chweched dosbarth i wneud busnes, y cyfryngau a drama oherwydd bod gan bob un ffocws ar waith cwrs ac wnes i ddim yn rhyfeddol o dda yn fy arholiadau TGAU.

Ar yr un pryd, des i'n rhan o Young Enterprise. Fe wnes i adeiladu cwmni cardiau cyfarch gyda ffrindiau fel rhan o'u rhaglen cwmni ac fe gyrhaeddwn ni rownd derfynol y DU.

Mae rhedeg fy musnes fy hun wedi fy helpu i dyfu fy nghysylltiadau a dysgu llawer o sgiliau. Rwy'n rhywun sy'n dysgu trwy wneud ac mae popeth rydw i wedi'i ddysgu mewn busnes wedi bod trwy wneud camgymeriadau a dysgu yn y gwaith.



Does dim rhaid i chi roi'r gorau i addysg na'ch swydd ar unwaith. Mae'n ymwneud â dechrau'n fach ac adeiladu dros amser. Rwy'n teithio drwy'r byd yn y gwaith erbyn hyn. Gan fy mod yn 18 oed, yn byw yng ngogledd Dyfnaint, does dim cymaint o gyfleoedd ac mae wedi caniatáu imi weld y byd ehangach. Dwi wedi penderfynu peidio â mynd i'r brifysgol am y tro. Yn y dyfodol, rwyf am barhau â'r busnes a'i dyfu cymaint ag y gallaf. Rwyf wrth fy modd â'r rhyddid. Dwi'n berson uchelgeisiol iawn ac mae'n golygu os oes gen i syniad, galla i fynd ar ei ôl e a gweld lle mae'n arwain.

"Dwi wedi penderfynu peidio â mynd i'r brifysgol am y tro. Yn y dyfodol, rwyf am barhau â'r busnes a'i dyfu cymaint ag y gallaf.

Rwyf wrth fy modd â'r rhyddid. Dwi'n berson uchelgeisiol iawn ac mae'n golygu os oes gen i syniad, galla i fynd ar ei ôl e a gweld lle mae'n arwain."

Tabl 3.3: Yr ALLau sydd â'r sgoriau mwyaf ffafriol, ffafriol, anffafriol a lleiaf ffafriol ar fynegai Rhagolygon Addawol. Mae ALLau sydd â deilliannau cyfartalog bron wedi'u hepgor.

Y deilliannau mwyaf ffafriol		
Barnet	Ealing	Hounslow
Brent	Harrow	Redbridge
Camden a Dinas Llundain	Hillingdon	Richmond upon Thames
		CS Surrey
Deilliannau ffafriol		
Bexley	Hackney	Lambeth
Bedford	Hammersmith a Fulham	Lewisham
Brighton a Hove	Haringey	Luton
Swydd Buckingham	CS Swydd Hertford	Newham
Canolbarth Swydd Bedford	Islington	Southwark
Dwyrain Swydd Gaer	Kensington a Chelsea	Tower Hamlets
Enfield	Kingston upon Thames	Wandsworth
		CS Warwick
(Mae ALLau sydd â deilliannau bron ar gyfartaledd wedi'u hepgor)		
Deilliannau anffafriol		
Dwyrain Swydd Ayr	Northumberland	Gogledd Tyneside
Hartlepool	Newcastle upon Tyne	Swydd Renfrew
Hull	Gogledd Swydd Ayr	Rochdale
Kirklees	Gogledd-Ddwyrain Swydd Lincoln	Wakefield
Y deilliannau lleiaf ffafriol		
Barnsley	Durham	Gogledd Swydd Lanark
Cernyw ac Ynysoedd Sili	Gateshead	Gorau'r Alban
Dumfries a Galloway	Gogledd Iwerddon	De Tyneside
		Sunderland

Ffynhonnell: LFS, rhwng 2018 a 2022. Data ffynhonnell a ddefnyddir o'r dangosyddion canlynol: deilliannau canolradd 2.3, 3.3a, 3.3b a 3.4.

Sylwer: Mynegai cyfansawdd yw Mynegai Rhagolygon Addawol sy'n cwmpasu 3 deiliant canolradd (4 mesur) ar gyfer ALLau unedol a haen uwch, yn seiliedig ar yr ALI lle roedd ymatebwyr yn byw pan oeddent yn 14 oed. Mae'r ôl-ddodiad CS yn nodi mai cyngor sir dwy haen yw'r awdurdod. Mae cyfyngiadau data yn golygu bod yn rhaid trin Gogledd Iwerddon yn un uned ac mewn rhai achosion eraill bu'n rhaid cyfuno awdurdodau lleol. Mae'r gwahaniaethau rhwng y 5 categori (mwyaf ffafriol, ffafriol, agos-cyfartaledd, anffafriol a lleiaf ffafriol) yn seiliedig ar eu safleoedd yn y dosbarthiad cyffredinol. Mae ALLau sydd â deilliannau bron ar gyfartaledd wedi'u hepgor.

Y canfyddiad mwyaf trawiadol yw bod bron pob un o'r ardaloedd mwyaf ffafriol a ffafriol naill ai yn Llundain neu yn Siroedd Cartref cyfagos Surrey, Swydd Hertford a Swydd Buckingham. Fel y dangosir yn ffigur 3.4, mae'r Siroedd Cartref hyn yn aml yn cael eu cynnwys yn ardal teithio i'r gwaith yn Llundain ac yn ardal Metropolitan Llundain (ochr yn ochr â rhannau o siroedd eraill sy'n ffinio â Llundain, megis CS Caint a CS Essex). Yn fras, mae gan yr ardaloedd hyn gysylltiadau


trafnidiaeth da â Llundain a gellir eu hystyried yn wregys cymudwyr o amgylch Llundain.

Fodd bynnag, mae dau eithriad nodedig i oruchafiaeth Llundain a'r Siroedd Cartref: Dwyrain Swydd Gaer a Swydd Warwick. Gallai'r ddau awdurdod hyn y tu allan i ardal Llundain gyda sgoriau ffafriol hefyd fod yn ardaloedd cymudo ar gyfer eu hardaloedd metropolitan cyfagos ym Manceinion a Birmingham yn y drefn honno.

Ffigur 3.4: Mynegai Rhagolygon Addawol: Mae gan fwrdeistrefi Llundain a'r ALLau mewn siroedd cartref cyfagos CS Surrey, CS Swydd Hertford a Swydd Buckingham y rhagolygon mwyaf addawol i bobl ifanc.

Mynegai o ragolygon addawol


- Mwyaf Ffafirol
- Ffafirol
- Grŵp Canol
- Anffafirol
- Lleiaf Ffafirol



Ffynhonnell: LFS, rhwng 2018 a 2022. Data ffynhonnell a ddefnyddir o'r dangosyddion canlynol: deilliannau canolradd 2.3, 3.3a, 3.3b a 3.4.

Sylwer: Ardaloedd yw lle roedd ymatebwyr yn byw pan oeddent yn 14 oed. I gael rhagor o wybodaeth am sut y sgoriwyd pob ardal, gweler yr atodiad technegol.

Ffigur 3.4 (parhad): Mynegai Rhagolygon Addawol: Mae gan fwrdeistrefi Llundain a'r ALLau mewn siroedd cartref cyfagos CS Surrey, CS Swydd Hertford a Swydd Buckingham y rhagolygon mwyaf addawol i bobl ifanc.



Ffynhonnell: LFS, rhwng 2018 a 2022. Data ffynhonnell a ddefnyddir o'r dangosyddion canlynol: deilliannau canolradd 2.3, 3.3a, 3.3b a 3.4.

Sylwer: Ardaloedd lle roedd ymatebwyr yn byw pan oeddent yn 14 oed. I gael rhagor o wybodaeth am sut y sgoriwyd pob ardal, gweler yr atodiad technegol.

Gallwn gael ymdeimlad o natur a maint y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd mwyaf ffafriol a lleiaf ffafriol o ffigurau 3.5a a b. Yn y ffigur, rydym yn dangos y berthynas rhwng SEB a deiliant canolradd dosbarth galwedigaethol (elfen o'r mynegai cyfansawdd), yn yr ALLau mwyaf ffafriol a lleiaf ffafriol I greu'r panel uchaf o ffigur 3.5a, rydym yn cyfuno'r deilliannau ar gyfer y 10 Awdurdod Lleol gorau gyda'r canlyniadau mwyaf ffafriol (Barnet i CS Surrey) ac yn y panel gwaelod (ffigwr 3.5b) rydym yn cyfuno'r canlyniadau ar gyfer y 10 Awdurdod Lleol â'r canlyniadau lleiaf ffafriol (Barnsley i Sunderland). Rydym yn cyfuno'r deilliannau o 10 ALLI oherwydd bod y canlyniadau ar gyfer Awdurdodau Lleol unigol yn rhy amherthnasol i'w dadansoddi ar wahân.

Mae'r ddau banel yn dangos perthynas gref rhwng SEB a deilliannau galwedigaethol, a phobl ifanc sy'n dod o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn cael y cyfleoedd isaf o gyrraedd y dosbarth proffesiynol, a'r rhai o gefndiroedd proffesiynol



sydd â'r cyfleoedd uchaf. Mae'r patrwm hwn yn berthnasol fwy neu lai yn gyfartal i bobl a fagwyd yn yr ardaloedd mwyaf ffafriol a'r rhai a fagwyd yn yr ardaloedd lleiaf ffafriol.⁸¹

Rydym hefyd yn gweld o ffigurau 3.5a a b bod 31% o bobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol a fagwyd yn yr ardaloedd lleiaf ffafriol wedi profi symudedd i fyny i'r dosbarth proffesiynol, ond bod 50% o bobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol a fagwyd yn yr ardaloedd mwyaf ffafriol wedi profi symudedd i fyny uchel iawn - gwahaniaeth o 19 pwynt canran.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio mai disgrifiadau syml yw'r rhain o'r gwahaniaethau mewn cyfleoedd symudedd yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf ffafriol; nid ydynt yn hawliadau achosol am effeithiau lle ar symudedd. Bron yn sicr bydd rhywfaint o'r amrywiad rhwng ardaloedd o ganlyniad i nodweddion anfesuredig yr unigolion a oedd yn byw yno, megis eu cefndir addysgol neu ethnigrwydd.

81 Mae lefelau symudedd cymharol, fel y'u mesurir gan gymarebau ods, yn weddol debyg yn yr ardaloedd mwyaf ffafriol, ffafriol, canolig, anffafriol a mwyaf anffafriol. Fodd bynnag, gallai fod gwahaniaethau ardal mwy o ran symudedd cymharol pe baem yn didoli ardaloedd yn ôl eu perthynas yn benodol yn hytrach na thrwy symudedd llwyr.

Ffigurau 3.5a a 3.5b: Y berthynas rhwng SEB a swyddi dosbarth cymdeithasol pobl rhwng 25 a 44 oed yn yr ALLau mwyaf ffafriol (panel uchaf) a'r rhai lleiaf ffafriol (panel is).



Ffynhonnell: LFS, rhwng 2018 a 2022. Data ffynhonnell a ddefnyddir o ddangosydd deilliannau canolradd 2.3, 3.3a, 3.3b a 3.4.

Sylwer: Ardaloedd yw lle roedd ymatebwyr yn byw pan oeddent yn 14 oed. Mae'r meysydd ym mhob panel yn cyfateb i'r rhai a ddangosir ar gyfer yr ALLau gyda'r sgoriau mwyaf ffafriol a lleiaf ffafriol yn ffigurau 3.5a a b. Am ragor o wybodaeth am sut y sgoriwyd pob ardal, gweler yr atodiad technegol.

Gan droi at yr ardaloedd penodol sydd wedi'u cynnwys yn rhai sydd â deilliannau canolradd mwy neu lai ffafriol, un canfyddiad nodedig yw bod gan bobl ifanc a chanol eu gyrfa a fagwyd mewn bwrdeistrefi llai cefnog yn Llundain – megis Hackney, Haringey, Southwark a Wandsworth – ddeilliannau ffafriol. Gall y patrwm hwn gael ei yrru gan y cyfleoedd cynyddol y mae ardal Metropolitan Llundain gyfan wedi'u gweld, yn hytrach na chan bolisïau ac amgylchiadau bwrdeistrefi penodol. Mewn gwirionedd, gellir ystyried amgylchedd economaidd Llundain yn 'llanw sy'n codi ac sy'n codi pob llong'.

Gan droi at yr ardaloedd llai ffafriol, nid oes un patrwm yn debyg i effaith Llundain. Y gymhariaeth agosaf at effaith Llundain yw 'effaith Gogledd-ddwyrain Lloegr' negyddol sy'n cynnwys rhagolygon llai ffafriol i bobl a fagwyd yn Newcastle upon Tyne, Sunderland, Gateshead, Hartlepool, DeTyneside, Northumberland a Durham.

Mae'r ardaloedd llai ffafriol yn tueddu i fod yn gymharol bell o Lundain, gan gyfeirio at wahaniaeth posibl rhwng y canol a'r ymylol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod sawl math gwahanol o ardaloedd llai ffafriol. Mae rhai ohonynt - megis Cernyw ac Ynysoedd Sili, Dumfries a Galloway, a Gororau'r Alban - yn wledig yn bennaf ac yn gymharol bell o ardaloedd metropolitan mawr. Mae Northumberland a Durham hefyd yn rhannu rhai nodweddion â'r math gwledig hwn o glwstwr. Mae ail fath o ardal lai ffafriol yn cynnwys hen ardaloedd mwyngloddio, megis Barnsley, Wakefield, a Gogledd Swydd Lanark Mae trydydd math yn cynnwys ardaloedd gweithgynhyrchu, megis Kirklees a Rochdale, ac mae pedwerydd math yn cynnwys porthladdoedd arfordir dwyreiniol megis

Hartlepool, Hull a Grimsby (Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln).

